# DINESYDD

**RHAGFYR/IONAWR**

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1984–85

RHIF 112


# Y SHERMAN I GAU?

MAE DYFODOL Theatr y Sherman yn y fantol. Cadarnhaodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei fwriad i ddiddymu'r cymorthdal a delir i'r theatr, ac os nad oes modd dod o hyd i noddwr arall, bydd un o brif theatrau'r ddinas yn gorfod cau.

Cafwyd rhybudd o'r hyn a allai digwydd ym mis Awst pan gyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau y ddogfen bolisi dadleuol "Gweithredu'r Blaenoriaethau". Argymhelliad yr adroddiad oedd dileu'r nawdd i'r theatr ym mis Mawrth 1986. Ar ôl hynny, ni fydd y Sherman yn derbyn yr un geiniog goch gan y Cyngor. Daw'r penderfyniad yn sgil polisi newydd y Cyngor i gyfeirio'i arian at y cwmniau actio yn hytrach nag at adeiladau.

Cyn i'r Cyngor benderfynu'n derfynol ar Ragfyr 7, nid oedd Sue Wiltshire, rheolwraig y Sherman, yn obeithiol iawn. Sylweddolodd fod gan y Cyngor flaenoriaethau eraill, a chydnabu bod angen nawdd ar y nifer cynyddol o gwmniau annibynnol sy'n gyfoethog o dalent ond yn dlawd o ran pres.

A phan gyhoeddwyd calyniadau'r cyfarfod mewn cynhadledd i'r wasg yn Sain Ffagan gwireddwyd ei hofnau gwaethaf.

Dywed Ms.Wiltshire y bydd yn rhaid sicrhau nawdd o gyfeiriad arall os ydy'r Theatr i barhau mewn bod, a chred mai'r ffynhonell mwyaf tebygol yw'r awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd y Sherman yw'r unig theatr o'i fath yng Nghymru nad yw'n derbyn cymorth ariannol gan ei awdurdodau lleol.

Oddiar yr haf bu hi a'i chyd-weithwyr yn cyflwyno'u hachos i'r awdurdodau lleol. Eisoes cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Chynghorau Sir De a Chanol Morgannwg. Gobaith y Sherman yw y bydd y tri corff rhyngddynt yn rhannu'r costau yn lle'r Cyngor Celfyddydau.

Ond pa faint o arian sydd dan sylw yma? Pan agorwyd y Sherman ym 1973 gan Goleg y Brifysgol, cytunodd Cyngor y Celfyddydau i rannu costau'r theatr yn gyfartal a'r Coleg. Ond yn raddol torrodd y Cyngor ei gyfran. Tair blynedd yn ôl talai £103,000 y flwyddyn i'r Sherman. Llynedd gostyngodd y swm i £54,000. Eleni £40,000.

Gyda'r lleihad sylweddol hwn yn nawdd y Cyngor, mae dyledion y theatr wedi cynyddu ac ni all y Coleg barhau i ysgwyddo'r baich.

Mae'r theatr yn gwneud elw ar y drws – mae'r arian mynediad yn talu am y cwmniau sy'n perfformio yno, ac mae'r cynulleidfaoedd yn dal i gynyddu. Ond costau gweinyddol a chyflogau'r staff sy'n achosi'r problemau.

Mae'r Sherman yn gofyn am gyfanswm blynyddol o £90,000 oddiwrth yr awdurdodau lleol i sicrhau ei dyfodol. Heb yr arian, bydd adeilad hardd a phoblogaidd yn mynd yn wag, a bydd Caerdydd yn dlotach o lawer fel canolfan celfyddydol.

DELYTH EVANS.

**NADOLIG LLAWEN**
**A**
**BLWYDDYN NEWYDD DDA**
**I HOLL DARLLENWYR**
**Y**
**DINESYDD**

# NADOLIG YN Y CARCHAR



MAE JOHN JENKINS yn y carchar dros y 'Dolig unwaith eto. Ar waethaf ei ymddygiad da, a chefnogaeth swyddogion lleol, mae'r Swyddfa Gartref wedi gwrthod ei gais am ryddhad ar parôl. Bydd yn rhaid iddo aros tan ganol fis Mawrth cyn ei ryddhau a phryd hynny wynebu'r dasg o chwilio am waith.

Beth am anfon carden 'Dolig ato heddiw? Trowch i dudalen 7

TU MEWN


| | |
|---|---|
| Traddodi Tri i Lys y Goron | 3 |
| Coffau 'Rhen Ebenezer | 6 |
| Cyfres Hanes Newydd HTV | 7 |
| Newyddion y 'Steddfod | 11 |
| Llyfre'r Dolig | 17-19 |

# GOLYGYDDOL

ERS I GYNGOR Celfyddydau Cymru gyhoeddi'r adolygiad cynhwysfawr "Gweithredu'r Blaenoriaethau", ym mis Awst, bu cryn ddisgwyl ymysg artistiaid o bob math am gyhoeddi'r polisi terfynol. Yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor llawn yn Sain Ffagan cyhoeddwyd y cynlluniau diwygiedig.

O ganlyniad i bwysau cyhoeddus gan y lobi llenyddol clustnodwyd £50,000 ychwanegol ar gyfer y gair ysgrifenedig - ond mewn gwirionedd nid ydyw'n fwy na chonsesiwn bychan i alluogi'r Cyngor i barhau a'i gynlluniau gwreiddiol heb wynebu protestio parhaol.

Felly hefyd y penderfynid i sefydlu cwmni drama cenedlaethol Saesneg yng Nghaerdydd tra'n diddymu'r gefnogaeth i'r Theatrau lle y dylai cwmni o'r fath berfformio. Neu mae'n bosibl mai'r nod yw i'r cwmni theatr, fel y cwmni opera, berfformio'n amlach y tu allan i Gymru nag ynddi.

O edrych ar benderfyniadau'r cyngor o'r tu allan, mae'n anodd osgoi'r casgliad eu bod wedi ffurfio polisi ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru ar sail eu blaenoriaethau personol. Yn sicr does dim modd dirnad sut y cyfiawnheir gwario gymaint ar Opera a Dawns, a chyn lleied ar gelfyddyd weledol.

Mae prif theatrau Cymru yn wynebu'r un problemau a'r Sherman yma yng Nghaerdydd, ac oni cheir arian gan lywodraeth leol, mae dyfodol nifer ohonynt yn y fantol. Wrth gwrs does gan lywodraeth leol fawr ddim cyllid i'w sbario, ond yn wyneb penderfyniad C.C.C. bydd yn rhaid iddynt gael hyd i'r arian o rywle. Dylai cynghorau Gwent, De a Chanol Morgannwg a Chyngor Dinas Caerdydd ddatgan yn ddi-oed eu parodrwydd i sicrhau dyfodol y Sherman.

Efallai bod ymyrraeth gynyddol gan lywodraeth leol ym myd y celfyddydau yn ddatblygiad i'w groesawu. Wedi'r cyfan mae Cyngor Celfyddydau Cymru, fel cynifer o gwangos Cymreig eraill, yn hollol analluog i gynrychioli buddiannau gwneuthurwyr a defnyddwyr celfyddyd yng Nghymru. A gorau po gyntaf y trosglwyddir y cyfrifoldeb i gyrff sydd yn ymwybodol o'r anghenion ac yn alluog i ymateb yn gywir.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Chwefror at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd,CF5 6JD erbyn Ionawr 19.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at:
Lynn Jones Ffon: 562816

RHAGFYR

18 - EISTEDDFOD YR URDD '85
Gwasanaeth Nadolig gan ddisgyblion Glantaf yng Nghapel Ebeneser. 7.00.
*** DALIER SYLW ***
Cafwyd y dyddiad anghywir ar gyfer y digwyddiad uchod yn y rhifyn diwethaf.

19 - CLWB IFOR BACH
Geraint Jarman

21 - CLWB IFOR BACH
Steve Eaves £1.50.

22 - CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG.
Clwb Ifor Bach 9.00
Parti Nadolig Cell Caerdydd gyda'r Hwntws. £1.50.

31 - CLWB IFOR BACH
Croesawu'r Flwyddyn Newydd

IONAWR

9 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon. 8.00

10 - CYLCH CINIO'R MERCHED
Gwesty'r Phoenix, Heol Fidlas, Llanishen. 7.30.
Siaradwr: Trefor Owen, Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

12 - CLWB IFOR BACH
Geraint Jarman

13 - CAPEL DERWEN DEG, LLYSFAEN
Oedfa Anenwadol. 4.00.
Parch. Meurwyn Williams.

14 - MERCHED Y WAWR
Festri Minny St. 7.30.
"Arferion Calan" - Tecwyn Vaughan Jones.

14 - CYMRY'R EGLWYS NEWYDD
Festri Capel y Methodistiaid Velindre Road, Yr Eglwys Newydd. 7.30.
Dr.Havard Gregory.

17 - CLWB IFOR BACH
Cymdeithas Wleidyddol 8.00
Phylip Rosser: "Rôl yr Undebau Llafur yn yr ymgyrych am ddemocratiaeth yng Nghymru".

19 - CLWB IFOR BACH
Geraint Lovegreen a'r Enw Da

24 - CLWB IFOR BACH
Cyfarfod agored i aelodau.

26 - CLWB IFOR BACH
Derec Brown a'r Racaracwyr.

30 - CYLCH CINIO'R BARI
Gwestai: Tecwyn Vaughan Jones.

CHWEFROR

1 - CYMRODORION CAERDYDD
Festri Ebenzer, 7.15.
"Tomos charles a'r Ysgol Sul" gan A.H.Williams.

2 - CLWB IFOR BACH
Mynediad am Ddim.

9 - EISTEDDFOD YR URDD '85
Cymuned Y Waun
Neuadd Goffa Rhiwbeina
Noson Werin yng nghwmni'r Hwntws, Elin ac Eleri ynghyd â Thwmpas Dawns.
Am fanylion pellach ffoniwch 619159 neu 753625.

9 - CERDDORFA SIAMBR CAERDYDD
Eglwys y Drindod, Ffordd Casnewydd. 7.30.
Arweinydd: Michael Bell
Unawdydd: Steven Watts
Gweithiau gan Arnold, Hummel, Mozart a Mendelssohn.


10 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Parch.Eifion Powell.

11 - MERCHED Y WAWR
Festri Minny St. 7.30.
Yoga - Valmai Evans.

13 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon. 8.00

14 - CYMRY'R EGLWYS NEWYDD
Festri Capel y Methodistiaid Velindre Road, Yr Eglwys Newydd. 7.30.
Eirlys Davies, Penarth.

DOSBARTHIADAU IAITH
Clwb Ifor Bach
Cymraeg:
Blwyddyn 2, bob nos Lun.
Cwrs Croesi'r Bont (i roi hyder i'r sawl sydd bron yn rhugl) nos Fawrth, 7.30 - 9.00.
Gwyddeleg: Nos Iau.




WEDI'R FFLAMAU: Trist iawn oedd clywed am y tân mawr a wnaeth gymaint o ddifrod i siop Dan Evans, y Barri. Ond bydd llawer o'n darllenwyr yng Nghaerdydd sy'n hoffi ambell i drip i'r Barri yn llawen o glywed fod y gwaith o adfer bron ar ben ac mae drysau'r siop ar agor fel arfer.

# MARATHON

BU CYNRYCHIOLAETH DDA o Ysgol Gyfun Rhydfelen yn rhedeg ym Marathon Caerdydd eleni eto. Yn y llun gwelir Mr.Huw Jones, athro mathamateg a gymerodd 3 awr 53 munud i gwblau'r cwrs, Ieuan Jones - 3 awr 20 munud; a Steven Davies 3 awr 58 munud. Bachgen o'r chweched dosbarth yw Ieuan, ac mae Steven yn ei bumed flwyddyn. Roedd y ddau fachgen yn rhedeg eu hail farathon, ond Mr.Jones ei gyntaf.

Trefnodd Caerdydd hanner marathon elelni hefyd, ac yn honno, rhedodd Mr.Derek Griffiths (1 awr 38 munud), Mr.Arwel Owen (1 awr 35 munud), a Mr.Dafydd Pretty (1 awr 28 munud).

Llongyfarchiadau iddynt i gyd!



AR ÔL CHWARAE yng ngêm brawf derfynol Ysgolion Uwchradd Cymru ddydd Sadwrn Rhagfyr 1, dewiswyd Gwilym Beech, Philip Hope a Mark Spiller o Ysgol Gyfun Rhydfelen, Pontypridd, i gynrychioli Ysgolion Dwyrain Cymru (dan 18 oed) yn erbyn Ysgolion Seland Newydd, yn Cross Keys, ar ddydd Sadwrn Rhagfyr 8.

Dewiswyd Gwilym Beech yn eilydd i dim cenedlaethol Ysgolion Cymru hefyd, i chwarae Seland Newydd, ar Ragfyr 22.

Llongyfarchiadau calonnog i'r tri, ac i Rydfelen hefyd, ar gael cynrychiolaeth dda yn nhîm y Dwyrain.

ARWEL OWEN.

# TRADDODI I LYS Y GORON

AM 10.00 O'R GLOCH fore Gwener, Tachwedd 30, roedd Llys 4, Caerdydd, yn orlawn gyda chwedeg o gefnogwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a ddaeath i gefnogi tri aelod a weithredodd yn y weithred ddifrifol gyntaf yn yr ymgyrch dros gorff i ddatblygu addysg Gymraeg.

Meinir Ffransis, Lleucu Morgan, a Dafydd Lewis oedd y tri a chafwyd gwybodaeth fod swm y difrod a achoswyd ganddynt i bencadlys y Toriaid yn yr Eglwys Newydd yn £5,000. Torrwyd ffenest, malwyd 150 o ffeiliau, offer swyddfa a chyfrifiadur a phaentiwyd llun o'r Prif Weinidog gyda phaent coch!

Roedd awyrgylch y llys yn ddigon ysgafn a chwarddodd pawb o glywed cyfieithu "screw-driver" fel "gyrrwr sgriwiau". Peth arall a barodd chwerthin oedd ateb Meinir i'r heddlu pan ddaethant i'w nôl, "Ddowch chi allan?" gofynnodd y plismon, "Na, dowch chi i mewn i'n nol ni!"

Parodd yr achos drwy'r dydd a syndod mawr i bawb oedd clywed yr erlynydd ar ran yr heddlu yn dweud fod swm y difrod mor ddifrifol nes bod yn rhaid mynd a'r achos i Lys y Goron.

Traddododd Meinir araith yn nodi ei bod yn fam i bedwar o blant, ac mai pryder dros gyfrwng iaith ei phlant a'i symbylodd i weithredu fel y gwnaeth. Roedd maint y difrod yn fesur o ddifrifoldeb y sefyllfa.

Er gwaethaf y nifer o ysgolion Cymraeg sydd wedi'u sefydlu, ychydig iawn o gyfle sydd gan ddisgyblion Cymru i gael addysg Gymraeg - hyd yn oed yn yr ardaloedd Cymreiciaf. Saesneg yw unig iaith addysg uwch. Byddai Corff Datblygu Addysg Gymraeg yn sicrhau cyfle i bob plentyn yng Nghymru i gael addysg Gymraeg.

Llond dwrn oedd yn y llys i glywed araith Meinir gan fod 50 o gefnogwyr wedi mynd i roi cefnogaeth ymarferol yn Western Avenue. Roedd gwyliadwriaeth tair wythnos y garafan wedi dod i ben ac am 3.00 o'r gloch aeth y cefnogwyr at adeilad y Cyd-Bwyllgor Addysg, cloi'r giat a sefyll ar draws y fynedfa. Parodd hyn ddryswch am bedair awr gan rwystro staff y Cyd-Bwyllgor a nifer o bwysigion eraill rhag gadael. Roedd ymateb llawer un yn ddiddorol: "Dewch mlaen - rydych chi'n gwybod mod i'n gefnogol i'r Gymdeithas - gadewch fi drwodd." Fel pe bai cefnogaeth i Gymdeithas yr Iaith yn hawlio triniaeth arbennig. Os oeddynt yn cefnogi mewn difrif, yna eu lle nhw oedd ymuno gyda ni yn y brotest. Yn ddiau gallwn ddisgwyl llawer mwy o wrthdaro fel hyn yn ystod yr ymgyrch rhwnd dosbarth canol y byd addysg cymraeg a dulliau'r Gymdeithas.

Paentiwyd slogannau ar y llwybr a glynwyd posteri ar y ffenestri. Bu'r heddlu yn bygwth ein harestio ond ni wnaed hynny ac aros yn amyneddgar a wnaethant. Ar y bont uwchben Western Avenue roedd baner fawr gyda'r geiriau "Corff Datblygu Addysg Gymraeg". Dyma'r neges sydd angen ei datgan yn glir wrth i'r ymgyrch ddwysau. galwn ar bawb i wynebu eu cyfrifoldeb yn unigol yn yr ymgyrch hon a sicrhau addysg Gymraeg i genedlaethau'r dyfodol.

Galwn arnoch i gefnogi'r tri aelod pan fyddant gerbron Llys y Goron ddechrau 1985. Maent yn debyg o orfod talu pris uchel am eu safiad, yn enwedig gan mai safiad gwleidyddol ydoedd.

Yng ngeiriau'r erlynydd, "the motive if anything makes the matter worse as the defendants could have pursued their aim by lawful means". Dwy flynedd o ymgyrchu cyfansoddiadol sydd wedi digwydd heb unrhyw ganlyniad. Disgyblion Cymru yw'r gwystlon yn yr ymgyrch hon - maent eisoes wedi aros hen ddigon.

ANGHARAD TOMOS.

# WRU yn mentro

RHYFEDD O FYD pan fo clywed yr iaith frodorol yn cael ei siarad ar faes chwarae cenedlaethol yn achos o lawenydd a syndod. Ond dyna a ddigwyddodd ar ddydd Sadwrn Tachwedd 24 pan glywyd seiniau'r Gymraeg yn ystod gêm rygbi rhyngwladol ar Barc yr Arfau am y tro cyntaf.

Ers blynyddoedd bu nifer o fudiadau ac unigolion yn ceisio cael Undeb Rygbi Cymru i ganiatau (sic) defnyddio'r Gymraeg ar y maes cenedlaethol ond methu a wnaethant. Ond o'r diwedd, o ganlyniad i'r pwysau a roddwyd ar yr Undeb Rygbi gan Bwyllgor Polisi Dwyieithrwydd Ynys Môn a'i ysgrifennydd Rhodri Davies, cytunodd yr Undeb drosglwyddo cyhoeddiadau dwyieithog dros yr uchel seinydd am gyfnod o flwyddyn fel arbrawf.

Teg yw dweud bod yr Undeb wedi datgan ei lawenydd am lwyddiant a rhwyddineb y fentr - ar yr achylsur cyntaf o leiaf!

Gobeithio nad effaith yr iaith a barodd i'r tim cenedlaethol gael ei drechu 9 - 28 gan Awstralia.

# COLOFN SHÂN

"Ni wn i am un cyfarchiad gwell
Nag a ddysgais gan feibion
y Dwyrain pell".

Na, nid i'r Dwyrain pell yr aeth Owen a minnau'n ddiweddar, ond i Ogledd Affrica, i Marrakech ym Morocco. Tybiaf mai'r un awyrgylch a oedd i'w deimlo yno. Roedd yn brofiad unigryw. Ai tlodi a welais? Nage - cyntefigrwydd - a darnau o'r Beibl yn fflachio ar draws fy meddwl wrth weld bechgyn yn bugeilio defaid a geifr ar lethrau moel ac unig. Tyrfaoedd yn heidio i'r dre ar gefn ebol asyn. Pobl yn byw yn agos at y pridd di-ildio, eu boliau'n llawn ond heb fawr arall. Cafwyd y glaw cynta ers pum mlynedd tra roeddem yno, a phawb yn dweud bod y tywydd braf wedi dod!

Cawsom gyfle i ymweld â chartre mewn pentre unig yn y mynyddoedd. Dwy ystafell wag arwahan i fat o frwyn ar y llawr, a phentwr o flancedi wedi'u plygu ym mhen pella'r 'stafell. Offer coginio cyntefig yn y llall heb ddodrefnyn o fath yn y byd. O dan yr ystafelloedd roedd cysgod i ddafad, gafr, cwningen ac ychydig ieir. Canolbwynt y cartre oedd dwr yn araf gynhesu ar dan coed i'r teulu ymolchi cyn mynd i'r Mosque.

Profiad ysgytwol oedd cyfarfod pobl a phlant di ri' yn byw yn fodlon eu byd ar y nesa peth i ddim, tra ninnau â'n holl freintiau tybiedig yn gwario arian i ddianc atynt hwy o ddwndwr ein bywyd ni, a chael lloches.

Roedd y bobol yn gynnes eu croeso a pharod eu sgwrs. Munud ddwys oedd edrych drwy ffenestr fy lloft a gweld un o arddwyr troednoeth y gwesty yn taenu ei fat brwyn ar awr benodedig, ei olwg tua Mecca ac yn gweddio, heb falio pwy a'i gwelai. Sgwrs ag un arall, a ddychwelodd i'w fro ar ôl ysbaid yn yr Amerig am fod rhuthr ac afradedd y bywyd yno yn ei wallgofi ac yn peryglu ei hunaniaeth. Meddyliais wrthyf fy hun - gan bwy y mae cyfrinach bywyd? Bywyd cyntefig ai bywyd gŵar a welais? Droeon daeth y llinellau hyn i'm cof:

"Pob un ar ei gamel cyn
mentro cam
Tua'r dieithr ffîn lle mae'r
wawr yn fflam

Â'i law ar ei galon "Salaam"
yw ei gri
"Tangnefedd Duw a fo gyfa thi".



Tocynnau, posteri taflenni, stensiliau electronig, cylchgronnau, llyfrynnau, beindir thesisau, pob gwaith copio. Nic ap Glyn, Caerdydd 497414.

# LLONGYFARCH

LONGYFARCHIADAU I Mary Currie Jones ar ei phenodiad, ddechrau Hydref, yn Llywydd Mudiad Cristnogol Merched Ifanc yng Nghymru. Bu Mary'n weithgar gyda'r "Y.W." ers ugain mlynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw gwelodd newidiadau lawer.

"Cynt, byddem yn cael myfyrwyr a gweithwyr ifainc ymhell o'u cartrefi yn lletya yn ein hostelau; dyna oedd yr angen ar y pryd. Rydym yn dal i'w croesawu nhw ond mae 'na anghenion a gofynion newydd ac mae'r "Y.W." yn ceisio ymateb i'r gawl a'r angen. Er enghraifft, byddwn yn derbyn mamau di-briod a'u plant ac mae 'na rai merched yn cael llety gennym ar gais y Gwasanaethau Cymdeithasol".

Er mai wardeniaid sy'n gweinyddu'r hostelau mae Mary a'i chyd-weithwyr yn ymweld yn gyson â nhw ac ar gael bob amser pan fo problemau'n codi "ac yn yr oes yma'n anffodus, mae rhai ohonyn nhw'n gallu bod yn ddigon erchyll".

Yn ystod y pedair blynedd nesaf, yn ogystal â'i gwaith yng Nghaerdydd, fe fydd Mary yn teithio Cymru i weld y canolfannau eraill yn y wlad (tair-ar-ddeg i gyd) ac yn defnyddio dipyn ar y trên 125 ar ei thrafels i Lundain fel aelod o'r Cyngor Canolog. Pob hwyl iddi yn ei swydd newydd.


**R.A. DREW**
**158 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen,**
**Treganna. Tel 28796**

*Ffrwythau a Llysiau o bob math*
*Cyflenwad ffres beunydd*


**Hefyd yn**
**Y Farchnad Ganolog, Caerdydd**
**Stryd Dynrafon Isaf, Tonypandy, a**
**Camm's Corner, Dinas Powys.**



***FRANKLIN'S***
***POBYDDION, 160 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen,***
***Treganna. Tel 29861***

**Bara, Teisennau, Cacenni, Peis,**
**Pasteiod Ffrwythau, Pasteiod Cernyw,**
**Pasteiod cig. Pob math o fwydydd ffres**
**o'r ffwrn bob dydd.**

# TREULIO'R DOLIG YN Y CARCHAR



WYNEB ADDFWYN, caredig sydd gan John Jenkins. Nid wyneb bomiwr sydd ganddo.

Tan fis Tachwedd llynedd roedd John - a drodd ei gefn ar ddefnyddio'r bom fel erfyn gwleidyddol - wedi cadw'n glir o'r llysoedd. Yn wir, roedd wedi pallu â gweithredu'n wleidyddol yn gyfangwbl i bob pwrpas. Pam felly ei fod yng ngharchar ar hyn o bryd? Ac ai fan 'na y dylai fod?

Nôl ym 1970, fe'i carcharwyd am ddeng mlynedd am osod ffrwydron. Yn ôl yr heddlu, Jenkins fu'r gŵr y tu cefn i'r ymgyrch fomio yn erbyn y cronfeydd dŵr a'r Arwisgo ym 1969. Dengys ei lythyrau, a gyhoeddwyd yn Planet ac yn ddiweddarach mewn llyfr a gyhoeddwyd gan Y Lolfa, fod ganddo allu dadansoddiadol anghyffredin ynglŷn â chyflwr Cymru. Fe'i ryddhawyd o garchar ym 1976, a dechreuodd ar gwrs gwaith cymdeithasol.

Ennillodd dystysgrif fel gweithiwr cymdeithasol yng Nghymru ond pan ymgeisiodd am swyddi yng Nghymru, ni chafodd yr un cyfweliad. Bu'n rhaid iddo droi at Lundain er mwyn cael gwaith.

Bu'n gweithio mewn uned er mwyn cynorthwyo cleifion seiciatryddol yn Llundain am gyfnod. Yna cafodd swydd gyda chyngor Toriaidd Westminster. Gwyddent am gefndir John Jenkins, ond buont yn fwy trugarog na chynghorau Cymru.

Roedd John yn gyflogedig, am gyfnod prawf, gan gyngor Westminster pan fe'i llusgwyd gerfydd ei wallt i ganol yr achos cynllwynio a ddygwyd yn erbyn nifer o aelodau Mudiad Sosialaidd Gweriniaethol Cymru fis Tachwedd 1983.

Wrth iddo gael ei holi gan yr heddlu - nid am y tro cyntaf ers iddo gael ei ryddhau o'r carchar - cafodd rybydd iasoer ganddynt. Ni fyddai'n gadael swyddfa'r heddlu heb i gyhuddiad gael ei osod yn ei erbyn.

Y cyhuddiad oedd iddo gynorthwyo un o'r diffynyddion a gyhuddwyd o fod yn gysylltiedig a'r bomio, Dafydd Ladd, i osgoi cael ei restio. Dywed John Jenkins iddo roi cyfeiriad i Ladd lle y gallai guddio am ychydig ddyddiau.

Ond dywedodd John iddo wneud hynny wedi i Ladd gytuno y byddai wedyn yn ildio ei hun i'r heddlu.

Gan mai dyna a wnaeth Ladd, cynghorwyd John Jenkins gan ei gyfreithiwr i bledio'n euog, gan fod y cyhuddiad o "gynorthwyo a chefnogi", yn ei dyb ef, yn gymharol ddiniwed. Dirwy yn unig fyddai'r gosb.

Cafodd John Jenkins sioc aruthrol felly pan y dedfrydwyd ef gan Mr.Ustus Fargaason i ddwy flynedd o garchar. "Roedd yn galed arno", medd ei ddyweddi Lowri Morgan, "roedd yn gwbl annisgwyl. Nid oedd wedi'i baratoi o gwbl."

Aeth o'r Llys yn syth i Dartmoor fel carcharor peryglus Categori B. Ond pan aeth fferm y carchar i drafferthion ariannol, dim ond John Jenkins oedd a'r gallu i ddehongli'r cyfrifon bler. Fel canlyniad newidiwyd ei statws i Gategori C - llai peryglus yn nhyb yr awdurdodau. Mae John yn awr yng ngharchar agored The Verne, ger Portland yn Ne Lloegr.

Bu'r carchariad yn ergyd drom iddo. Mae ei holl waith er mwyn ennill tystysgrif gwaith cymdeithasol wedi'i wastraffu. Ni chaiff swydd arall yn hawdd.

Fe'i siomwyd hefyd gan wrthodiad y Llywodraeth i ganiatau parol iddo. Gyda parôl, byddai wedi'i ryddhau fis Mehefin diwethaf. Ond yn ôl Lowri Morgan, 'dyw ei farn gwleidyddol ddim wedi newid. Amser yw'r gelyn yng Nghymru. Oni bai am hynny byddai mwy o ddewis gwleidyddol. Erbyn hyn mae yna ddiffyg creu ymwybyddiaeth Gymreig.

Bydd John Jenkins yn cael ei ryddhau fis Mawrth nesaf. Bydd yn anodd iddo gael gwaith. A bydd yr heddlu byth yn anghofio mai cenedlaetholwr o argyhoeddiad dwfn iawn yw John Jenkins. Dyn peryglus.

Bydd John Jenkins yn y carchar unwaith eto y Nadolig hwn - cofiwch amdano ac ysgrifennwch ato:

John Jenkins<br>
A97582<br>
HMP The Verne<br>
PORTLAND<br>
Dorset

## "No!" medde'r P.O.

MAE SWYDDFA'R POST yng Nghaerdydd wedi gwrthod cais am gownteri Cymraeg yn eu swyddfeydd.

Ysgrifennodd Cangen gogledd caerdydd o Blaid Cymru at Brif Bostfeistr y ddinas yn gofyn iddo ystyried darparu cyfleusterau Cymraeg yn y dwy brif swyddfa bost yng nghanol y dref. Holwyd a fyddai modd neilltuo un cownter Cymraeg ar gyfer trin busnes ac ymholiadau trwy gyfrwng yn Gymraeg, fel y gwneir yn sawl un o'r banciau.

Dyfynnir isod ran o ymateb llefarydd ar ran Swyddfa'r post mewn llythyr at ysgrifennydd y gangen.

"Bu'r cwestiwn o ddarparu lle wrth gownteri i weinyddu busnes yn Gymraeg yn destun ymchwilio manwl. ar hyn o bryd nid oes gennym ddigon o siaradwyr Cymraeg naill ai sy'n gallu neu sy'n barod i ddarparu gwasaneth o'r fath. I wneud hynny, byddai angen i ni, yn y dyfodol, recriwtio pobl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn arbennig at y diben hwn, peth na fyddem am ei wneud am y byddai'n gwahaniaeth yn erbyn y di-Gymraeg."

Nid yw ateb o'r fath yn dderbyniuol o gwbl gan aelodau'r Blaid yng ngogledd Caerdydd a bwriada'r gangen fynd a'r mater ymhellach trwy dynnu sylw Cyngor Defnyddwyr Swyddfa'r Post a'r Ombudsman at yr agwedd negyddol hwn.


Os am wybodaeth pellach ynglyn â'r eitem uchod, cysyllter â: Huw Roberts, 75 Ffordd yr Orsaf, Llanishen (ffon:766283).

---

YMWELWYR: Yn ddiweddar bu dau frawd o'r Ariannin ar ymweliad â Chymru dan nawdd Cyngog Eglwysi Cymru a Phrydain, a daeth cynrychiolaeth o eglwysi Cymraeg y ddinas i oedfa yn y Tabernacl. Mae un o'r ymwelwyr, Dr.Gabriel Vaccaro, yn weinidog gyda'r Eglwys Apostolaidd (ble mae dros dwy fil a hanner o aelodau), a'r Dr.Viviers, a anwyd ym Mhatagonia, yn gweithio mewn cylch cenhadol ac yn adeiladu cynulleidfanewydd gyda'r Eglwys Unedig yn yr Ariannin.

Nid oedd galw am y lladmerydd i gyfieithu o'r Sbaeneg i'r Saesneg, gan fod un o'r aelodau, Mrs.Gillian Burns, wedi cyfieithu i'r Gymraeg yn uniongyrchol. Roedd Mr.T.J.Rhys Jones hefyd yn abl i'w cyfarch yn eu mam-iaith a darllen o'r Ysgrythur yn y Sbaeneg! Cyflwynwyd calendr Cymraeg i'r ddau ar ran Cymdeithas Cymry Ariannin. Noson i'w chofio a'r brodyr yn werthfawrogol o'r derbyniad yng Nghymru dros eu arhosiad byr.

# "Mae'r ffynhonnau eto'n fyw"



DAETH TORF NIFERUS o bobl ynghyd ar brynhawn Sul, Tachwedd 18, ac ymgynnull yng nghanol y siopau mawr, modern yng Nghanolfan Dewi Sant a hynny gerllaw ffynhonnau dŵr oedd yn ffrydio'n ddi-baid.

Dadorchuddio cofeb y buom i'r hen Ebenezer a fu yn fur yn gwarchod y pethau gorau sy gennym fel cenedl. Euthum i yno i gwrdd â'r hen ddosbarth Ysgol Sul - Cledwyn a Daphne, Glenys, Ken a Lyn, Eira a Mary, Philip a David, Helen a Heulwen, Enfys a Margaret, a llu o gyfeillion y teulu a'r cwmwl tystion.

Pwy fyddai'n meddwl mai yno wrth y ffynhonnau y bum yn dweud ein hadnodau gynta, yn dathlu Gwyl Flynyddol yr Ysgol Sul, yn cynnal seiat ac yn cael ein dysgu beth oedd gweddi a sut i weddio.

Yma y buom yn gwrando ar un o bregethwyr mawr y genedl yn rhoi her inni i ddilyn yr Iesu ac yma y rhoddodd siars inni i barchu'r Sul ac i fyw bywyd sobr, ffyddlon yn Ei enw Ef. Yno y'n bedyddiwyd, yno y'n derbyniwyd yn aelodau yn Eglwys Iesu Grist. Yno y'n priodwyd: Nerys ac Eirwyn, Mair ac Elfed, Glenys a Brian a llu eraill.

Mae'n debyg bod y ffynhonnau hyn yn yr union fan lle y bu'r pulpud a'r sedd fawr gynt ac heddiw mae'r ffynhonnau hynny a'r gofeb yn dal yn llawn atgofion am fagwraeth Gristnogol gwerinol Gymreig yng nghanol y ddinas. Roedd hi'n hyfryd iawn y prynhawn Sul hwnnw i gael dangos i'r plant ymhle y derbynion ni o ddŵr Ffynnon y Bywyd yn rhad.

Ein Gweinidog, Y Parchedig Ddoctor Emlyn Jenkins oedd yno yn dadorchuddio'r gofeb. Mae'n amlwg fod dymchwel yr hen le wedi rhoi loes mawr iddo ond roedd yn ymhyfrydu bod hen hanes traddodiadau gorau Ebenezer yn parhau yn yr adeilad hardd cyfagos yn Heol Siarl dan y Gweinidog newydd Y Parch.Geraint Tudur.

Daw'r atgofion yn ôl yn ddi-baid wrth sefyll yng nghysgod y gofeb syml hon. Roedd yn ddigwyddiad urddasol - ac mae'n diolch ni i'r Br.Gwyn Lewis Davies ar ran y capel ac i'r Cymrodorion am wneud yr achlysur yn ddathliad o bwys dinesig. Cydweithrediad y capel a'r Cymrodorion i gadw ar gof mangre a fu'n sanctaidd iawn yng ngholwg cymaint ohonom. Cafodd y bywyd mae'r gofeb yn ei adlewyrchu ddylanwad annileadwy ar lawer iawn ohono.

EBENEZER
(Fore'r Nadolig '77, yr oedfa olaf yn Ebenezer cyn dymchwel y capel)

Rhown glod! Canys er difrodi ein teml,
Gwneud tomen ohoni,
Mae Un sy'n fwy na meini,
Arno Ef mae'n hyder ni.

Llawenhau mewn pabell newydd a gawn,
Ac yno'n bobl ufudd,
Hoff o waith, fe dry ein ffydd
Yn ffaith yn llaw'r Perffeithydd.

T.Arfon Williams

## Y Fari Lwyd — Tipyn o gerdyn

BYDD DAU O brif draddodiadau Nadolig/Blwyddyn Newydd Cymru yn cael eu harddangos eleni ar gardiau Nadolig newydd Hyrwyddiadau a Chyhoeddiadau Taplas, cyhoeddwyr prif gylchgrawn canu gwerin Cymru, "Taplas".

Comisiynwyd dau artist o Gymru, Roz Stephens o Gaerdydd ac Adrienne Thomas o Gaerfyrddin i gynhyrchu lluniau gwreiddiol o'r Calennig a'r Fari Lwyd ar gyfer y cardiau. Mae diddordeb arbennig gan Roz Stephens, cyn-fyfyriwr yng Nghleg Celf Caerdydd, mewn arlunio ac mae'n prysur ennill ei phlwy fel arlunydd. Mae Adrienne Thomas, cyn-fyfyriwr yng Ngholeg Celf Dyfed, yn cyfuno'i dawn fel arlunydd a'i diddordeb mewn traddodiadau a chanu gwerin. Ei gwaith llawn amser yw'r gwasanaeth sifil, felly mae'n defnyddio'i doniau creadigol yn ystod ei horiau hamdden.

Bydd y cardiau dua gwyn yn cynnwys cyfarchiad dwyieithog. Maent ar gael yn unigol (20c yr un & cludiant) neu mewn pacedi o bump (90c & cludiant) sy'n cynnwys amlenni.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Keith Hudson, 182 Broadway, Y Rhâth (ffon: 499759).




A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
GWENAN
CAERDYDD 732233
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.



# TAFODAU'R DDRAIG

AR NOS FAWRTH Ionawr 8 darlledir y rhaglen gyntaf yng nghyfres newydd HTV "The Dragon Has Two Tongues - A History of the Welsh". Bydd gan y gyfres o 13 o raglenni awr, dau gyflwynydd - yr awdur a'r darlledwr Wynfford Vaughan-Thomas, a'r hanesydd yr Athro Gwyn Alf Williams.

Man cychwyn y gyfres yw nad oes y fath beth a hanes gwrthgychol a di-duedd, ond yn hytrach fe'i gwelir yn fater o ddadansoddiadau sy'n dibynnu ar safbwynt gwleidyddol y dadansoddwyr.

Ym mhob rhaglen cyflwynir safbwyntiau tra gwahanol y ddau ar wahan i'w gilydd, ac yna ar ddiwedd pob rhaglen daw'r cyflwynwyr ynghyd i ddadlau'u hachos a hynny heb unrhyw ymyrraeth gan ganolwr. Gadewir i'r gwylwyr benderfynu drostyn nhw eu hunain.

Cynrychiola Wynford Vaughan-Thomas yr ysgol draddodiadol. Iddo ef mae hanes Cymru yn cychwyn gyda'r Celtiaid yn eu hogofeydd ac yn parhau'n afreolus, yn gyfres o ddamweiniau.

Mae Gwyn Alf ar y llaw arall yn Farcsydd radical sy'n gweld y gorffennol fel cyfres o ddatblygiadau a reolir gan bobl, ac a allai arwain at well fywyd i bawb. Mae yntau'n amau'n fawr a ddylai unrhyw hanes Cymreig gychwyn gyda'r Celtiaid.

Cyfarwyddwr y Gyfres yw Colin Thomas. Bu yntau'n gweithio i'r BBC am un mlynedd ar bymtheg cyn ymddiswyddo ar ôl derbyn gorchymyn i ddileu darnau o raglenni dogfennol ar hanes Iwerddon a oedd yn ymwneud ag erchyllterau'r Prydeinwyr. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar ei liwt ei hun ac yn gweithio ar sawl raglen i S4C.

Mae'r gyfres - y fwyaf o'i fath a wnaed gan HTV - yn dilyn cyfresi tebyg ar hanes Iwerddon a'r Alban. Yr hyn sy'n wahanol efallai, yw'r ffordd y bwriedir tynnu'r gwylwyr i mewn i'r holl broses o hanesydda.

Mae HTV eisoes wedi gwahodd nifer o grwpiau â diddordeb yn y maes - er enghraifft ysgolion, colegau, adrannau Efrydiau Allanol y Brifysgol, cymdeithasau hanes lleol, a'r W.E.A. - i ffurfio grwpiau gwylio. Cynhyrchir pedwar pecyn arbennig gan Archifdy Gwynedd a fydd yn cynnwys llawer o deunydd crai - y dystiolaeth fydd ei angen cyn ffurfio barn. Byddant ar werth am £1.75 yr un, neu £6.00 am y pedwar.

Mae'r tri pecyn cyntaf yn ymwneud yn uniongyrchol â rhaglenni'r gyfres a hynny yn nhrefn amser. Mae'r pedwerydd ar a llaw arall yn ymwneud â menywod trwy hanes Cymru ac mae'n addas i'w defnyddio trwy'r gyfres.

Yn ogystal â hynny mae'r awduron ill dau yn cyhoeddi llyfrau i gyd-fynd â'r gyfres. Cyhoeddir "When Was Wales? A History of the Welsh" gan Gwyn Alf Williams mewn cloriau caled gan Black Raven Press (£12.95) ac hefyd mewn cloriau papur gan Penguin (£3.95). Cyhoeddir llyfr Wynford Vaughan-Thomas, "Wales: A History" gan Michael Joseph (£12.95).

Ar ddiwedd y gyfres cynhelir cynhadledd penwythnos yng Nghaerdydd (Ebrill 12-14) ar gyfer yr holl grwpiau gwylio, a bydd y ddau gyflwynydd yn ogystal a'r cyfarwyddwr, yn bresennol. Os oes gennych ddiddordeb mewn ffurfio neu ymuno a grwp gwylio hoffech rhagor o wybodaeth cysylltwch a Bethan Eames, Adran Addysg, HTV, Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd, CF5 6XJ.

---

THE DRAGON HAS TWO TONGUES
A History of the Welsh
S4C - Nos Fawrth o Ionawr 9 am 8.00
C4UK - Nos Fercher o Ionawr 9 am 8.00
HTV - Nos Wener o Ionawr 11 am 10.30

---

YN EISIAU
SWYDDOG HYSBYSEBION
Dosberthir Y Dinesydd yn rhad ac am ddim. Dibynwn, felly, yn helaeth ar hysbysebion.A oes un brwd o blith darllenwyr Y Dinesydd a fyddai'n barod i ymgymryd â chasglu hysbysbion, a hynny'n fisol? Ffonier 751469.

---


Tuag at Drueiniaid
ETHIOPIA

**SÊR**
**YN**
**SALEM**

Rhagfyr 22ain, 1984
am 7.30 o'r gloch
yn Salem (M.C.) Canton

*Oedolion* £1.50 *Plant* 50c



NESAWCH AT NESTA

ARBENIGWRIAG TRIN GWALLT, YN BROFIADOL AC A DDAW I'CH CARTRE.

"Pa ots am yr eira,
pa ots am y glaw,
Daw Nesta i'ch tendio
beth bynnag a ddaw".

Cysyllter ar Caerdydd 751418 neu 51 Heath Park Ave., Mynydd Bychan.

# T.T YNG NGHLWB IFOR BACH!

NA, DYDI'R MUDIAD dirwest ddim wedi bod yn gweddnewid y Clwb yn ddistaw bach! Yn y flwyddyn newydd bydd y llythrennau "T.T." yn cynrychioli rhywbeth unigryw i Gymry Cymraeg Caerdydd - i'w enwi'n llawn, y Twr Trafoli.

Trafoli!? Gair anghyfarwydd, ond waeth i chi heb a chwilota amdano mewn gwirionedd! Mae'n gyfuniad o'r ddau air, "trafod" a "moli" - sy'n cyfleu rhyw syniad o'r hyn fydd yn digwydd yn y gwmniaeth newydd hon.

O fis Ionawr ymlaen bydd y Twr Tafoli'n cyfarfod bob yn ail nos Sul yng Nghlwb Ifor Bach. Ar ddechrau pob cyfarfod byddwn yn ymyno mewn gwasanaeth byr yn canolbwyntio ar thema arbennig, gan ddefnyddio dulliau o addoli a fydd yn newydd ac yn ffres i lawer ohonom. Bydd hyn wedyn yn arwain at drafodaeth anffurfiol ymysg ein gilydd. Perthyn, yn ei wahanol agweddau, fydd thema'r cyfarfod cyntaf - rhywbeth sydd yn berthnasol ac yn bwysig i bawb ohonom.

Bydd pob cyfarfod yn dechrau am 8.30 - sy'n arwydd nad cystadlu â'r capeli am gynulleidfa yw'r bwriad, ond yn hytrach, ymestyn cenhadaeth yr eglwys i'r gymdeithas y mae'n rhan ohoni. Nid yw'r Twr Trafoli'n gysylltiedig ag unrhyw gapel nac enwad yn arbennig, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i bawb. Drwy eu cynnal mewn man canolog a chyfarwydd fel Clwb Ifor Bach, rydym yn gobeithio cymell pobl nad ydynt yn teimlo'n rhy gysurus mewn awyrgylch capel traddodiadol, neu nad ydynt efallai wedi mentro i gapeli ers peth amser, i ymuno â ni mewn addoliad.

Y neges i bob dinesydd ar ddechrau blwyddyn newydd felly, yw:

Nos Sul, Ionawr 13, am 8.30
yng Nglwb Ifor Bach
Dewch i drafoli!

---

GWEINYDDWR/YMCHWILYDD yn Swyddfa Cymru o Sefydliad y Merched, yng Nghaerdydd (penodiad chwe mis yn unig ar hyn o bryd). Dylai'r ymgeisydd fod yn rhugl yn y Gymraeg, yn berson graddedig neu gyfystyr os yn bosib, ac yn meddu ar brofiad o fod mewn gwaith. Teipio a thrwydded gyrru yn gymwysterau manteisiol.

Ffurflen gais a gwybodaeth bellach oddi wrth Rhiannon Bevan, Swyddfa Cymru Sefydliad y Merched, 19/21, Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF1 9LJ.


*CALON LÂN*

**Da gan Philip Morgan a'i Fab, Cyf., allu dweud bod erbyn hyn ddau win bord 'Calon Lân'. Cyfuniad o winoedd Ewropéaidd wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i Mosel yw'r 'Calon Lân' gwyn, a fu ar y farchnad ers blwyddyn a mwy. Cynnyrch Ffrainc yw'r 'Calon Lân' coch sydd newydd ddod ar y farchnad. Prif bwrpas cyflwyno'r gwinoedd hyn wedi'u labelu yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren o'r naill neu'r llall yw tua £2.00**




*MYFANWY*

**Gwin newydd arall â label Cymraeg arno ar resti Philip Morgan a'i Fab yw 'Myfanwy', gwin sych byrlymus a ddaw o Ffrainc. Pris manwerth potelaid 75 centilitren o'r gwin hwn fydd tua £3.45.**




**Gellir prynu'r gwinoedd yn y siopau gwin canlynol hefyd:**


**CARREFOUR, GALLEON WINE, MUNDAYS, SPAR,**

**WINESELLERS ac AUGUSTUS BARNET**

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**
Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd
126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570

# FFARWELIO Â GWILYM

GWILYM YN YMDDEOL! Wedi ugain mlynedd o lafur caled a diflino, rhoddodd Gwilym Roberts y gorau i ddysgu dosbarthiadau nos yng Nghanolfan yr Urdd. Er mwyn dangos gwerthfawrogiad ei lu edmygwyr, cyflwynwyd anrheg o set deledu lliw iddo mewn cinio arbennig a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Cedars, Llanishen, ddydd Sul, Tachwedd 25. Cyflwynwyd yr anrheg iddo gan Alun Treharne, Cadeirydd Cymdeithas Canna a chafwyd anerchiad hefyd gan Ken Kane.



# LLYTHYRAU

20 Lansdowne Ave
Rhiwbeina

Annwyl Dinesydd,

Amgaeaf siec am £30 ar gyfer cronfa'r Dinesydd.

Diolch i bob un ohonoch sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r Dinesydd. Rwy'n ei ddarllen o glawr i glawr bob mis. Gobeithiaf berswadio fy hun i ddanfon cyfraniad ysgrifenedig un diwrnod.

Yr eiddoch yn gywir,
Eluned Rook.

---

HOFFAI'R PANEL GOLYGYDDOL ddiolch yn fawr i Eluned Rook am ei rhodd caredig. Mae'r rhifyn hwn o'r Dinesydd yn un go arbennig, gydag ugain tudalen. Yn ôl y Trysorydd, nid oes gennym ddigon o arian i dalu am ei argraffu. Ond gan fod cymaint o ddeynydd wedi dod i law penderfynwyd mentro gan obeithio y gallwn ddibynnu arnoch chi'r darllenwyr i sicrhau y bydd modd talu'r bil.

Hoffwn ddiolch hefyd i bawb a'n cefnogodd trwy ddod i'n Parti Nadolig ac wrth gwrs i'r aelodau hynny o'r Pwyllgor Rheoli a wnaeth y noson yn un mor lwyddiannus.

Birchgrove

Annwyl Dinesydd,
Y Meillion

Myfi yw tad y Rhiannon Roberts y mae cyfeiriad ati yn rhifyn Tachwedd o'r Dinesydd. Fel bo chi'n edrych ar y llun hi yw'r gyntaf ar y chwith yn y rhes gefn.

Mrs.John Janssen yw hi bellach ac yn byw, dros dro yn unig, gyda'i gwr a thri phlentyn yn New Castle, Delaware, U.D.A. Yr wyf am ddanfon yr ysgrif "Cofio Steddfod '65" ati gan obeithio y bydd yn cryfhau ei hiraeth am ddod yn ôl i'r wlad yma yn fuan.

Yr eiddoch yn gywir,
Ellis Roberts.

Derwen Deg
2 Restways Close
Llandaf

Annwyl Dinesydd,

Beth am ddechrau colofn y plant yn eich papur chi fel bod cyfle i blant y ddinas anfon eu storiau, barddoniaeth, eu barn a phosau a jocs Cymraeg? Gallech gynnwys hefyd ambell gyfraniad gan oedolion a fyddai o ddiddordeb arbennig i blant.

Yr eiddoch yn gywir,
Ioan Gruffydd.

---

Rhagfyr 24ain 1984.

- CYFARFOD PLYGAIN -

am 8 yr hwyr.

Trwy garedigrwydd Eglwys a Chynulleidfa y Bedyddwyr, Llysfaen.





Peacocks

"PICIWCH I MEWN I PEACOCK'S
MAE'R FARGEN BOB AMSER YN UN DDA"

20 CANGEN YNG NGHYMRU, GAN GYNNWYS

204, HEOL DDWYREINIOL Y BONTFAEN, CAERDYDD
4-6, COUNTISBURY AVENUE, LLANRYMNI, CAERDYDD
CITY STORE: CANDLFAN DEWI SANT, CAERDYDD
HOUSEHOLD CENTRE: 108, STRYD Y FRENHINES, CAERDYDD
50-52 HEOL ALBANY, CAERDYDD

PEACOCK'S STORES, CYF. P.O. BOX 24, CAERDYDD CF1 8XQ

# 'STEDDFOD YR URDD

## A FYDD LLE YN Y LLETY?

DAETH YR AMSER i'r Pwyllgor Llety a Chroeso ddechrau o ddifrif ar y gwaith enfawr o ddarparu llety ar gyfer rhai miloedd o gystadleuwyr o'r rhannau hynny o Gymru sy'n rhy bell iddynt i drafeilio ar yr un diwrnod.

Cyfrifoldeb y Pwyllgor Llety fydd sicrhau llety yn rhad ac am ddim i oddeutu 5,000 o blant ac ieuenctid Cymru yn ystod wythnos yr Eisteddfod (Mai 27 - Mehefin 1).

A gawn felly apelio ar i chi, ddinasyddion Caerdydd, i agor eich drysau led y pen i groesawu'r Cymry ifainc hyn ac i brofi iddynt groeso twymgalon y Brifddinas.

Yr hyn yr ydym ei angen yw llety yn rhad ac am ddim, i gynnwys swper ysgafn, gwely a brecwast, i ddau neu ragor o ieuenctid am un neu fwy o nosweithiau. Pwysleisiwn y pwysigrwydd o ystyried derbyn dau blentyn gan nad yw plant yn hoffi mynd i gartrefi dieithr ar eu pennau eu hunain. Byddai gwely dros dro neu wely gwersyll yn hollol dderbyniol.

Os medrwch ein cynorthwyo a fuasech garediced â dod i gysylltiad ag un o'r swyddogion os gwelwch yn dda cyn gynted ag y bo modd. Gwerthfawrogwn yn fawr eich cymorth parod.

Tegwen Evans, Cadeirydd: 754559
Mair Dyfri Jones, Is-Gad: 623945
Nans Couch: Ysgrifennydd: 753625
Lis Evans: Ysgrifennydd: 754396

NID YW CYSTADLEUAETH y râs falwns fawr a drefnwyd i godi arian i Eisteddfod yr Urdd drosodd eto o bell ffordd - cyhoeddir y canlyniada terfynol ar Ionawr XX - ond eisoes cyflwynwyd gwobrau i'r sawl a werthodd y nifer fwyaf o docynnau.

Yn y llun isod gwelir Joanne Talbot (ar y chwith), 12 mlwyd oed, o Ysgol Uwchradd Howardian, a werthodd 160 o docynnau ac a ennillodd y drydedd wobr o £20. Yn y canol mae Helen Pratcher, 12 mlwydd oed o Ysgol Uwchradd Rhymni, a werthodd 166 o docynnau gan rannu'r wobr gyntaf o £60 gyda Howard Carter (ar y dde), 11 mlwydd oed, o Ysgol Uwchradd Cantonian. Llongyfarchiadau calonnog i'r tri.

Y tu ôl iddynt gwelir Gareth Jams, trefnydd yr Eisteddfod, a Malcolm Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith.

## O LAW I LAW

AM DAIR WYTHNOS ddechrau Tachwedd mewn adeilad a fu gynt yn eiddo i gigydd, cyhaliwyd siop ail-law i godi arian i'r Eisteddfod.

Gwerthwyd dipyn o bopeth yno gan gynnwys uned sinc a chopi o un o luniau hunllefus Salvador Dali! Roedd dillad merched, llestri a thrugareddau o bob math yn mynd yn gyflym ac er mai ychydig o lyfrau oedd ar gael roedd rheini'n gwerthu'n dda - ac yn arwain i sefyllfaoedd diddorol: oes rhywun yn gwybod, tybed, pam oedd hen lyfr yn dwyn y teitl "The Six Young Princesses" yn tynnu cymaint o sylw? A pham oedd sawl darpar-brynwr yn credu mai nofel Saesneg yw "Cysbgod yr Arian" gan Selyf Roberts? Ffansiwyd y llyfr yn gyntaf gan wr ifanc o'r Caribi ond yn y diwedd gwelodd nad oedd yn debyg o gael llawer o fudd o'i brynu. Yna, bu ond y dim i'r nofel fynd i wraig ddi-Gymraeg am fod ei gŵr yn taeru mai Saesneg oedd ei hiaith. Setlwyd y ddadl rhyngddyn nhw gan onestrwydd yr helpwraig yn y siopo - ond. collwyd y gwerthiant!

Avril Lewis oedd trefnydd a rheolwr y siop a thrwy ei hymdrechion hi a'i chyd-weithwyr o Gyncoed, Glan-y-Llyn ac ardaloedd eraill gwnaed £550 i helpu lanw coffrau'r Eisteddfod.

---

HYSBYS: Mae 'na deulu Cymraeg yng Nghaerdydd sy'n awyddus i warchod a gofalu am blentyn o dan oed ysgol yn ystod y dydd. Am fanylion pellach cysylltwch â Chaerdydd 568654.

---

## STIWARDIO

MAE'R PWYLLGOR Stiwardio yn awyddus iawn i gael enwau rhai sy'n barod i weithredu fel stiward ar faes yr Eisteddfod mor fuan ag sydd bosibl. Bydd angen cannoedd i ofalu am y gwahanol ddyletswyddau a bydd yn gyfle ardderchog os ydych am fod yn rhan o'r ŵyl yma a'r un ffordd mae'n gyfle i wrando a mwynhau'r Eisteddfod.

Mae angen stiwardiaid o ddydd Mawrth, Mai 28, hyd at ddydd Sadwrn Mehefin 1. Bydd dewis o bedair shifft fel a ganlyn:
8.00 - 11.00 y bore: i ofalu am ragbrofion yn bennaf.
10.30 - 2.00 y prynhawn: cystadleuthau ac arddangosfa ac ati.
2.00 - 6.00: fel yr uchod
6.00 - 10.00 yr hwyr: cyngherddau, dramau ac ati.

Os y dewiswch weithio dwy shifft, fe gewch docyn bwyd ac wrth gwrs bydd mynediad i7r maes am ddim i bob stiward. Os bydd angen tocyn parcio ar rai dros oedran ysgol bydd rhaid gwneud cais ymlaen llaw. Mae ffurflenni i'r perwyl ar gael i'r rhai sydd am stiwardio. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd Mrs.Mair Owen, 33 Heol y Bryn, Rhiwbeina (ffon: 623480) neu'r Cadeirydd Mervyn Jones, 9 Lon Werdd, Sain Ffagan (ffon: 594378).

Edrychwn ymlaen at eich cwmni a'ch cefnogaeth.

holl lyfrau Cymru ynghanol y dref
Oriel
Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd Ffôn: 395548
Catalogau ar gael



# COFIO STEDDFOD '65

PAN DDAETH Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Gaerdydd ym 1965 yr un oedd problem y Pwyllgor Gwaith a heddiw, sef sicrhau digon o arian i lwyfannu'r ŵyl. Yr Arglwydd Faer ar y pryd oedd yr Henadur W.J.Hartland, a bu ef a'r Cyngor Dinesig yn barod eu cefnogaeth o'r dechrau, gan roi pum mil o bunnau i agor y gronfa. Tu cefn i'r Brifddinas yr oedd yr hen Sir Forgannwg a dau o'i gŵyr glew, Syr Cennydd Treherne a'r Arglwydd Heycock, yn Noddwyr i'r Eisteddfod. Cawsom gan Forgannwg fil o bunnau.

Dyddiau cynnar y teledu annibynnol oedd hi, a minnau'n cyfrannu i Gwmni TWW fel cyflwynydd a swyddog addysg. Yn barod iawn eu help, cefais bum cant o bunnau gan y cwmni i'r Eisteddfod; a llawer o gymorth tawel arall.

Dyna gychwyn da gyda chwe mil a hanner o bunnau. Ac eto heddiw, o edreych yn ôl, credaf y byddai'n well pe bai'r symiau hyn wedi dod yn hwyrach yn yr ymgyrch. Rhoddai hyn esgus i rai o'r cyhoedd pan wahoddwyd hwy i gyfrannu ddweud fod digon o arian gan y Trysorydd yn barod, ac er llafurio'n galed i godi arian, llai na thair mil o bunnau a godwyd - cyfanswm o £9,490

Yr oedd cael gŵyr amlwg y ddinas i gefnogi'r Ŵyl - yr Arglwydd Faer fel Llywydd, a'r Cyfarwyddwr Addysg, Mr.R.E.Presswood, fel is-lywydd - yn golygu fod yn rhaid defnyddio mwy o Saesneg weithiau o gymharu ag Eisteddfodau diweddar eraill, megis Brynaman a Phorthmadog. Ond rhoddodd Mr.Presswood, yn arbennig drwy ei ddirprwy Mr.T.O. Phillips, y gefnogaeth lwyraf inni gysylltu â holl ysgolion Caerdydd, a mawr oedd ein diolch i brifathrawon y cyfnod - llawer ohonynt yn ddi-Gymraeg - am eu cydweithrediad parod.

Yr un modd gyda Morgannwg, a'i Chyfarwyddwr Addysg Mr.Trevor Jenkins yn Is-Lywydd (gyda Mr. Presswood a'r Prif Arolygydd Wynne Ll.Lloyd). Cafwyd cefnogaeth barod y sir, ac nid syn oedd i Gylch Dwyrain Morgannwg ennill Cwpan Pantycelyn, y mil o bunnau a ai gyda hi, a'r Wobr Frenhinol.

Beth mae dyn yn ei gofio am bersonoliaethau'r Ŵyl? Aneurin Jenkins-Jones Meistr, Defod y Cadeirio, yn galw ar fardd ifanc, Gewrallt Lloyd Owen, myfyriwr ugain oed o'r Coleg Normal. Alun Evans yn llywio Defod y Coroni, a galw ar lenor ifanc 24 mlwydd oed, Robin Gwyndaf Jones, i dderbyn y Goron. Yr Athro Dewi Prys Thomas a rannai babell gyda mi yng ngwersylloedd cynnar yr Urdd, yn agor yr Arddangosfa Celf a Chrefft, ac un o weithwyr selocaf yr Urdd yng Nghaerdydd, Miss Eirwen Humphreys yn Llywydd dydd Iau.

Cwmni'r Ysgrifennydd Gwladol cyntaf, y Gwir Anrhydeddus James Griffiths, ar y Sadwrn a'r un sydd bellach yn Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, Dr.Emyr Wyn Jones yn llywydd dydd Gwener. Dycnwch dwy wraig, Mrs.Beti Wyn Jones a Mrs.Myfanwy Jarman yn swyddfa'r Eisteddfod am fisoedd cyn yr Ŵyl, a gorchest Mrs.R.M. Rosser yn sicrhau llety i bedair mil o gystadleuwyr, a llawer gan Saeson na chlywsant am yr Urdd cynt. A rhywbeth i'w gofio gyda'r diolch mwyaf - sirioldeb fy nau gyd-swyddog, Keri Harris Hughes y Trysorydd a T.Gwynn Jones, yr Ysgrifennyd, y pwysais mor drwm arnynt. Mae Gwynn bellach yng Nghaerfyrddin, a Keri yn y nefoedd.

HYWEL D.ROBERTS
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith.



## EISIAU GWAITH?

A YDYCH YN ddi-waith ar hyn o bryd? Neu a wyddoch am rywun arall a hoffai gael gwaith?

Yn ystod mis Chwefror neu Fawrth 1985, y mae Amgueddfa Werin Cymru yn gobeithio gweithredu un o Gynlluniau Creu Gwaith y Llywodraeth (Adran Gweithlu'r Gymuned, De Cymru). Gwnaed cais am chwe pherson i weithio'n rhan amser. Y tâl yw £62.58 (21 awr).

Prif amcan y cynllun yw parhau'r gwaith sydd eisoes ar y gweill gennym yn yr Amgueddfa, sef dosbarthu defnyddiau llên gwerin ar gardiau, fel y bônt o gymorth i ymchwilwyr ac yn arbennig ar gyfer paratoi cyfres o gyhoeddiadau. Cynnwys y defnyddiau hyn storiau gwerin, traddodiadau, coelion, rhigymau, hwiangerddi, posau, a chlymau tafod.

Yn ôl amodau'r Cynllun rhaid i'r personau sy'n cynnig am y swyddi fod wedi'u cofrestru'n ddi-waith am o leiaf chwe mis. Os oes diddordeb gennych byddwn yn falch o gael rhoi unrhyw gyfarwyddyd pellach.

ROBIN GWYNDAF
Adran Bywyd Diwylliannol
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
Caerdydd
CF5 6XB
Ffon: (0222) 569441


**Is-gynhyrchydd rhaglenni adloniant a phlant**

Mae angen Is-gynhyrchydd ar HTV Cymru i weithio ar raglenni adloniant ysgafn, comediau sefyllfa, rhaglenni cerdd a rhaglenni, plant. Dylai'r ymgeiswyr fod a diddordeb byw yn y mathau yma o raglenni, a phrofiad dilys, os yn bosib, o'r technegau cynhyrchu a ddefnyddir wrth baratoi rhaglenni, boed o'r stiwdio, o'r unedau darlledu allanol, neu ar ffilm.

Cyflog, yn cynnwys atodiadau, £14,858 y flwyddyn (yn cael ei adolygu).

Y swydd i gydymffurfio a'r cytundeb rhwng y cwmni ag undeb ACTT.

Dylai ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DIN/407 at. Rheolwr Staffio, HTV Cyf., Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL

HTV

HTV CYMRU

**Y Gorau yn Gyson i Gymru**

# Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth mawr o raglenni teledu ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o Gymru – o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni

HTV CYMRU

ar **S4C**

**Y Gorau yn Gyson i Gymru**

# BUDDUGWYR BARDDONOL

YCHYDIG O FISOEDD yn ôl trefnwyd cystadleuaeth gan Awdurdod Addysg De Morgannwg i blant y Sir, ar y testun "Heddwch".

Ennillwyr yn yr adran farddoniaeth Gymraeg oedd tri o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Yr Eglwys Newydd.

Y tri oedd Geraint Williams (9 oed), Non Gwilym (10 oed) a Nia Haf Davies (10 oed).

HEDDWCH

Heddwch, heddwch, heddwch i'r byd,
Heddwch i'r bobl sy'n byw yma i gyd.
Heddwch i'r trempyn sy'n cerdded y stryd,
Heddwch i'r byddar, y dall a'r mud.

Heddwch i'r adar sy'n hedfan yn ffri,
Heddwch i'r ceffyl, y gath a'r ci.
Heddwch i'n ffrindiau sy'n byw dros y lli,
Heddwch, heddwch, dyna fy nghri

NIA HAF DAVIES.

Ni ddaru hi erioed dorri'i gair,
Na'n gadael pan oeddwn yn gloff.
Gwyn yw ei lliw, un addfwyn yw
Y glomen, ein deryn hoff.

Hi roes i ni hyder,
Hi sy' ar y brig,
Cyfaill pob creadur
Sy'n trigo'n wig.

Ni welwn ni'r deynydd fel sidan
Ond mantell ddu y fran
Mae dyddiau'r golomen yn dyfod i ben
Cawn fomiau a rhyfel a than.

Pigo, pigo'r esgyrn
Oddi ar y llawr
Y crawcian croch o'i phig hir fain:
"Gorchfygwyd daear fawr!"

NON GWILYM.



Nia Haf Davies, Non Gwilym a Geraint Williams yn derbyn eu tystysgrifau gan Arglwydd Faer Caerdydd, Y Cynghorydd Albert Huish.

HEDDWCH

Rhyfela, lladd a llosgi
Fflamau'n dinistrio
Clefyddau yn curo
Gynnau yn tanio
Diwedd dynion
Gwynebau gwyn fel y galchen
Ynghanol y bomiau
A rhuo'r awyrennau
Anghyfeillgarwch gelynion
A milwyr yn ymladd
I ennill y frwydr
A rhan fwyaf yn gorwedd
Mewn gwaed
A'r gwaed yn diferi
A'r fflamau yn dawnsio
Ac atgofion gwlad annwyl
yn dyfod i ben
Lladd dynion daear
A llosgi pob ffermdy a
thy yn y wlad
Cariad pob gwlad
yn gwynebu ei diwedd
Gall hyn ddod at ddiwedd
Diwedd y byd
Gobaith yn codi o'r
adfeilion
A'r lladd a'r llosgi
ddaw i ben
Dechrau dynion eto ddaw
A bywyd gwyllt i'r caeau
Ar ôl y mwstwr a'r
dadwredd
Nid oes dim i garu
Dynion ar lawr yn
gorwedd mewn hedd
A llawer mewn bedd
yn barod
Blynyddoedd a aeth heibio
a llawer mis mewn cof
A'r tir a daeth yn ol
Gwel yr haul yn machlud
A chofion ddaeth yn ol
A gweld y tonnau'n dawnsio
Mewn heddwch ar y dwr
Nid oes dim i darfu
ar ewyn gwyn y don
Nid hyd yn oed pelydrau
coch yr haul a gerddai
ar y mor
Mewn can o sisial tawel
A dynna llawer cof.

Geraint Williams.


**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I GYMRY CAERDYDD**
oddiwrth Pwyllgor a Staff
**CLWB IFOR BACH**
11 Heol Womanby, Caerdydd
Am fanylion pellach am ddigwyddiadau cysylltwch â:
Ceri Morgan (Rheolwr)
ar 32199

neu Nic ap Glyn (Ysgrifennydd)
ar 497414

# GAIR O'R POST

14 Maes y Deri
Rhiwbeina

Annwyl Dinesydd,

Rydw i'n byw yn Rhiwbeina a does dim llawer i'w wneud yno.

Un o fy hoff ddiddordebau yw BMX ac mae llawer o fechgyn eraill a diddordeb mewn BMX. Ond does dim llawer o rieni yn hoffi i'w plant fynd allan i'r stryd ar gefn beic. Felly mae eisiau rhywle i fynd, ond ble? Mae eisiau trac yn Rhiwbeina fel bod plant yn cadw i ffwrdd o'r strydoedd a llai yn cael eu lladd.

Allech chi ofyn i'r cyngor i wneud rhywbeth am hyn? Ac hefyd dalu i gael rhywun i fod yna fel bod pobl ddim yn brifo eu hunain.

Yr eiddoch yn gywir,
Geraint Francis.

Cilmelyn
60 Ardwyn
Pantmawr

Annwyl Dinesydd,

Ysgrifennu ydw i allan o ddiddordeb, yn gofyn faint o ddarllenwyr Y Dinesydd sydd yn dod o ddinas Caerdydd. Rydw i a fy mrawd yn dod o Gaerdydd, ond ganwyd fy mam yng Nghaergrawnt a 'nhad yng Ngogledd Cymru.

Mae mwyafrif fy nosbarth yn dod o lefydd ar wahan i Gaerdydd, rhai o Lundain, rhai o'r canolbarth a rhai o'r Gogledd.

Yn fy stryd i, Ardwyn, mae pobl o wahanol lefydd, sydd wedi symyd i Gaerdydd i fyw.

Y 'sgwn i o ble ddaethoch chi ddarllenwyr Y Dinesydd?
A hefyd chi sy'n golygu ac yn argraffu'r Dinesydd, ysgrifennwch ataf.

Yr eiddoch yn gywir,
Eleri Owen.

MAE BWRDD Golygyddol y Dinesydd yn cadw'r hawl i dalfyrru unrhyw erthyglau neu lythyrau sy'n cael eu cyhoeddi yn y papur.

13 Heol Maelog
Yr Eglwys Newydd

Annwyl Dinesydd,

Ysgrifennaf i gwyno am gyflwr y strydoedd yn yr Eglwys Newydd. Bob dydd bron iawn mae'n rhaid i mam a fi gerdded adref o'r ysgol. I fynd adref mae'n rhaid i ni groesi comin yr Eglwys Newydd. Ar y llawr ym mhob man ma carthion ĉwn. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus a gwylio lle 'rydym yn rhoi ein traed.

'Rydym ni'n teimlo gryf iawn yn erbyn i'r perchnogion ganiatau i'w ĉwn adael eu carthion ar y llawr a difetha'r cae a'r strydoedd i'r plant a'r hen bobl. Mae'n bosibl cael haint wrth y carthion.

Rhoddodd y cyngor arwyddion i fyny yn dweud y cau unrhywun sy'n gadael i'w cwn faeddu'r stryd ddirwy o £50. 'roeddwn i yn meddwl byddai pethau yn newid ar ôl hyn. Ond mae'n amlwg nad ydy pobl yn cymryd sylw.

Dydw i ddim yn siwr sut i ddatrys y broblem, falle y bydd gan ddarllenwyr Y Dinesydd syniadau.

Yn gywir,
Trystan Gwynedd.

15 St Asaph Close
Y Waun

Annwyl Olygydd,

Rydw i'n teimlo'n drist iawn pan glywaf am blant sydd yn "mygio" hen bobl. Pan ddarllenais yn y "Western Mail" rhyw noson, gwnaeth rywbeth ddal fy llygaid. Erthyl am hen gwpwl oedd o. Roedd tri o blant wedi torri mewn i'w siop ar ol iddi gau, yna roedd un o'r bechgyn wedi bygwth y dyn efo cyllell.

Mae gennyf innau ddwy famgu. Mae un yn saith deg a'r llall yn chwech deg un. Meddyliais pa mor drist bydden ni os byddai y rhaim wedi "mygio" nain neu mamgu. Rydw i'n meddwl ei bod hi'n warthus bod plant fel hyn dim ond yn cael pump neu wyth mlynedd yn y carchar pan ddylen nhw fod yn y carchar am byth.

Yr eiddoch yn gywir,
Nia Haf Davies.

# PARABL PARRI


MAE'N WYTHNOS gynta mis Rhagfyr, ac i mi mae tymor y Nadolig wedi hen ddechrau - achos mi rydw i newydd ddod nôl o'r Smithfield - sioe fatstock blynyddol Clwb y Smithfield yn Llundain sydd wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd lawer ac sydd â chysylltiadau Cymreig ar hyd y daith - yn ffermwyr yn dangos stoc, hen feirniaid neu hyd yn oed cefnogwyr brwd. (Fel rhai o ferched ifanc y Brifddinas sy'n dal tren ar ôl gwaith am 5.00 er mwyn mynd i Lundain i gyfarfod ffrindiau amaethyddol ac yna trên cynnar yn ôl yn y bore i fod yn y gwaith erbyn 9.00!) Teimlwn yn hen wrth feddwl am ffasiwn beth!

Dyna'r tridie hwyliog yna drosodd a'r gamfa nesa ydi sgwennu cardiau Nadolig - ac mae'n dipyn o ddefod yma fel mae acw mae'n siwr - amser cysylltu hefo llawer o hen ffrindiau o wahanol gyfnodau. Mae'r garden gynta wedi cyrraedd o Sir Fynwy hefo'r llythyr blynyddol ynddo a'r un nesa ga'i dwi'n siwr fydd yr un a ddaw o Singapore.

Teulu ifanc wedi byw yno ers wyth mlynedd ydynt - tydw i ddim wedi gweld y plant, ond dwi'n teimlo mod i'n nabod nhw'n dda gan eu bod bob un yn cyfrannu i lythyr blynyddol sy'n sôn am hynt a helynt pob aelod o'r teulu. Llynedd wrth sgwennu fy llythyr anniddorol atynt mi ofynais am lun o'r bechgyn , a chyn y Pasg, fe ddaeth y llun - dau o hogiau iach, nobl a drwg yr olwg, tebyg i'w mam Wyddelig yn siwr.

Mae'n amser i mi roi pin ar bapur a pharatoi fy nghylchlythyr - beth ga i ddweud? Wel mi ddaw'r dyddiadur allan, ac mi ga i ganllawiau yn fanno ac mi ga'i lot o hwyl wrth edrych nôl - digon di-nod a di-ddigwyddiad ydi rhai o'r wythnosau ond mi ges lot o hwyl. Dwi'n addo cadw dyddiadur dipyn manylach ym 1985 - pam na wnewch chithau hefyd? Tan y tro nesa, Nadolig Llawen a 1985 llawn digwyddiadau braf a difyr i chi.

RUTH PARRY.




GWALIA TRAVEL SERVICES LTD
98 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Treganna
Tel 45550/28834
101 Heol Caerffili, Caerdydd
Tel 617228/9
*Gwyliau a Theithiau byd-eang*
*Arbenigion mewn teithiau awyr pris isel*

# TORTH O FARA

ER FY MOD WEDI bwriadu gwneud fy siopa Nadolig yn gynnar, ar y funud olaf mae'r rhan fwyaf o'r anrhegion yn cael eu prynu. Efallai bod rhyw nam yn fy ngallu i drefnu neu ddisgyblu fy hunan i wneud y dasg hon. Credaf hefyd bod ychydig o waed y Cardi ynof - ni hoffaf gael fy ngwahanu o'm harian!

Eleni penderfyniais mae un ffordd o gael rhywfaint o'r anrhegion cyn i'r siopau fynd yn annioddefol, oedd trwy baratoi erthygl am lyfrau sydd ar gael yn siop Marks & Spencer. Cyn i unrhywun fy meirniadu am ysgrifennu am lyfrau o un siop yn unig wedi'u hysgrifennu yn yr iaith fain hoffwn egluro'r rhesymau am fy newis - credaf bod llyfrau a gyhoeddir gan y cwmni hwn yn rhesymol iawn eu pris gan ystyried bod y rhan fwyaf ohonynt yn lliwgar dros ben, ac mae dewis ardderchog yno - ceir llyfrau ar gyfer nifer fawr o ddiddordebau ac ar gyfer gwahanol oedrannau. Dewisais deg o lyfrau i'w hadolygu - diolchaf i'r tim o "arbenigwyr" a roddodd gymorth i mi gyda'r gwaith hwn.

Gobeithiaf bydd y sylwadau o ddefnydd i'r rhai ohonoch sydd eto i orffen eich siopa Nadolig. Rwyf wedi eu rhannu fel hyn:

- *** Llyfr a allai ddangos arwydd o ddefnydd cyson erbyn y Nadolig nesaf.
- ** Llyfr addas ar gyfer rhywun anturus.
- * Llyfr deniadol i'w roi i'r sawl sy'n hoffi casglu llyfrau.

A Creative Guide to Arranging Flowers. £1.99 *

Llyfr lliwgar iawn sydd werth pob ceiniog o'i bris o ran ei gyflwyniad. Mae'n fwynhad edrych trwyddo hyd yn oed os nad oes gardd mwy na hances poced gennych. Ceir gwybodaeth am wahanol blanhigion i'w defnyddio - handi os nad ydych yn gwybod y gwahaniaeth rhwng "pen ci bach" a "barf yr hen ŵr"! Anrheg addas i rywun sydd â dawn i drefnu blodau - byddai dosbarth nos yn well i unrhywun sydd, fel mi, yn ceisio trefnu blodau ond yn cynhyrchu talp di-ffurf!

Special Occasion Casseroles £1.25

Yma ceir ryseitiau sy'n cymeryd 30 munud neu lai i'w paratoi. Mae amrywiadau diddorol ar hen ffefrynnau a chyfuniadau anarferol iawn mewn ryseitiau - e.e. briwgig eidion gyda "angostura bitters", cig oen gyda sego, brest cyw iar mewn saws cwins. Dylid torri i lawr ar yr olew/menyn a hufen a ddefnyddir mewn rhai o'r ryseitiau os ydych eisiau llai o fraster yn eich diet.

Nid oes adran yn cynnwys seigiau ar gyfer llysieuwyr ac ni fyddwn i'n ystyried bod rhai o'r ryseitiau yn "arbennig", Efallai byddai rhai o'r cynhwysion yn anodd i gael hyd iddynt. Os oes perthynas dda rhyngoch â'r cipar rhowch gais ar wneud rhai o'r seigiau sy'n defnyddio helgig. Llyfr defnyddiol i'r rhai ohonom sydd eisiau rhywbeth y gellid ei adael yn y ffwrn ar fore Sul tra rydym yn y capel.

French Bistro Cooking £1.25 **
Mediterranean Cooking £1.25 **

Addas i unrhywun sy'n casglu llyfrau coginio yn enwedig os ydynt â diddordeb mewn trio coginio yn y dull cyfandirol. Mae ynddynt seigiau hyfryd wedi'u gwneud gyda physgod (os allwch gael gafael ar y math o bysgod sydd eu hangen) a defnydd dychmygus o lysiau. Dyma ffordd bleserus o gofio am y bwydydd a flaswyd ar wyliau ar y cyfandir. Pwysleisir, yn y ddau lyfr, pwysigrwydd defnyddio cynnyrch ffres o ansawdd da, a sesnin gofalus gyda llysiau blas.

Cooking With Herbs and Spices £1.25 **

Gall ein traddodiad o baratoi cig a dau fath o fwydlys fel rhan o brif pryd o fwyd fod braidd yn ddiflas. Ceir gwybodaeth cyfun am ddefnyddio gwahanol lysiau blas a sbeisus yn y llyfr hwn. Rhennir y ryseitiau (pob un uhonynt o safon gyda llaw) i wahanol adrannau, sef rhai sy'n defnyddio sbeisus llym (pungent), defnydd o flasau cyfrwys, seigiau trawiadol a seigiau sy'n defnyddio "marinade". Eglurir sut i baratoi gwahanol bowdwr cyrri a cheir chyfarwyddiadau am sut i baratoi cynhwysion arbennig. Ceir awgrymiadau o fwydydd i'w paratoi gyda'r mwyafrif o'r seigiau. Mae'r eglurebion yn arbennig o dda. Anrheg addas i unrhywun sydd angen mwy na phupur a halen i roi bywyd i'r bwydydd maent yn eu paratoi.

The Busy Cook's Book £1.25 ***
Suppers & Snacks £1.25 ***

Fy hoff lyfrau o'r rhai rwyf wedi'u hadolygu. Mae'r cyflwyniad yn ardderchog yn y ddau a ceir syniadau synhwyrol gan yr awduron yn eu rhagymadroddion. Mae'r cynllun bwyta a awgrymir yn Snacks & Suppers yn dilyn y cyfarwyddyd diweddaraf a roir gan arbennigwyr ar faeth yn i diet.

Ceir syniadau am brydiau bwyd addas are gyfer amrywiaeth o achlysuron a rhai seigiau ar gyfer llysieuwyr (o'r diwedd) yn The Busy Cook's Book. Dyma lyfr coginio addas iawn i'w roi yn anrheg i'r sawl sy'n eistedd ar bwyllgorau 'Steddfod '85!

Yn Suppers & Snacks ceir ryseitiau delfrydol i rieni sy'n ceisio paratoi bwyd ar gyfer eu plant, yn enwedig byrbrydiau i'w bwyta o flaen y teledu, ac i bobl sy'n byw ar eu pennau' hunain. Gellir defnyddio rhai o'r seigaiau fel cwrs cyntaf i bryd bwyd ac er bod rhai o'r seigiau braidd yn egsotic ar gyfer prydau canol wythnos maent yn dda ar gyfer prydiau arbennig cyflym i'w paratoi. Credaf y gallai hyd yn oed Cen Cartwn baratoi rhai o'r ryseitiau sy'n y llyfr hwn!

Food Garnishes and Decorations £1.25 **

Llyfr o faint addas i'w adael ar silff mewn cegin sy'n rhoi amrywiaeth o syniadau ar sut i gyflwyno bwyd. Anrheg addas ar gyfer y gwestywraig ddyheadol sy'n ceisio gwneud argraff dda. Gellid fod wedi gwella ar rai o'r diagramau ond ar y cyfan mae'r cyfarwyddiadau yn glir. Bydd angen rhai o'r awgyrmiadau cyn eu defnyddio ar achlysuron arbennig. Llyfr i'w rhoi'n anrheg i rywun sydd ag amynedd.

How To Enjoy Wine £1.25 ***

Llyfr diddorol i'w ddarllen. Llyfr i'r sawl sy'n gwneud eu camau petrusgar cyntaf i mewn i fyd y bodegas a'r chateaux. Mae'n llawn o syniadau ac awgrymiadau diddorol mae'r arbennigwr yn cymrd yn ganiataol. Mae'r pennodau yn gryno ac eto'n llawn o wybodaeth sy'n symbylu un i ddarllen mwy. Dyma lyfr sy'n ymuno a nifer o rai tebyg sy'n helpu dinistrio'r snobyddiaeth sy'n bod ynghylch gwin. Llyfr da iawn am y pris.

1,000 Handy Household Hints £1.25 ***

Ar ôl "Mil o Alwadau", "Mil o Leisiau" a Mîls on Wheels, dyma fil o awgrymiadau ar gyfer y cartref. Cewch stôr o gyfarwyddiadau defnyddiol i hwyluso gwaith, arbed ariad a diogelu'r cartref. Mae'r llyfr bychan ond weddol drwchus hwn yn cynnwys cannoedd o syniadau gwahanol - sut i lanhau staen gwaed, gwared fflasg ddiod o staen te, prynu gwely, brownio selsig yn gyflym, marcio hem sgert yn ogystal ag ateb i'r cwestiwn mawr hwnnw, sut i adfywio'ch asparagws. Anrheg hynod o dderbyniol i unrhywun, a hynny am bris rhesymol iawn.

---

Be 'di hoff fwyd Byrti?

Asparabws

# LLYFRAU'R 'DOLIG . LLYFRAU'R 'DOLIG

## CADW'R CHWEDLAU'N FYW — ALED ISLWYN

Aled Islwyn CADW'R CHWEDLAU'N FYW
Gwasg y Dref Wen £2.95.

"Cadw'r chwedlau'n fyw; dyna i gyd yw hanes diweddar Cymru."

Dyma egluro teitl y nofel drawiadol hon. Mau cryn dipyn o son am Gymru ynddi ac mae tynged ei gwlad yn arbennig o bwysig i Lois, y prif gymeriad.

Gethyn sy'n llefaru'r geiriau yn y dyfyniad uchod. Ef yw'r dyn cyntaf o bwys ym mywyd lois wrth iddi fyw trwy'r chwedegau a'r saithdegau. Yna daw Gerallt a Gareth.

Tipyn o fôr yw Gethin, a dweud y gwir. Mae Gerallt yn fwy diddorol yn ei ffordd annifyr ei hun. Ond mae Gareth yn greadigaeth hyfryd iawn, a'r berthynas rhyngddo ef â Lois a'r sgwrsio rhyngddynt yn gyffrous dros ben. Ŵyr yr adur sut i greu sgwrs sy'n brifo ac mae llawer sy'n ddeifiol, weithiau'n greulon, yn y nofel. Ar dro gall fod yn ddigon direidus hefyd:

> "Doedd hi ddim yn meddwl y gallai hi byth briodi un o'r Sieri Rhyddion. Ddim hyd yn oed er mwyn gwireddu ei huchelgais o fod yn brifathrawes. byddai braidd fel priodi un o'r Secret Seven, meddyliai."

Mae naratif y nofel yn gafael, ac mae digonedd o ddigwyddiadau diddorol a throeon annisgwyl ynddi. Dyma, er enghraifft, gyfarfyddiad Lois a gwraig Gerallt, a'r egwyl yng nghwmni'r llanc yng nghlwb ieuenctid Gareth.

Mae Lois ei hun yn gymeriad cymhleth; er ei bod hi'n hunanol, ac yn annibynnol tu hwnt, down ninnau i'w hoffi, bron, wrth inni ddysgu rhagor amdani, a'r awdur yn datgelu'r cyfan yn raddol wrth symud yn ôl ac ymlaen trwy'r amser.

Braf iawn yw cael croesawu nofel mor ddarllenadwy. Campus yn wir!

PHILIP WYN JONES.

## LLYFRAU'R 'DOLIG

Toshi Maruki STORI HIROSHIMA
Ivan Corbett £4.95

CYFROL DRAWIADOL iawn o ran cynnwys ac arlunwaith. Mae'n dilyn hanes gollwng y bom atomig ar Hiroshima, ar ffurf stori ar gyfer plant yn bennaf. Disgrifir yr effaith ar bobl ac amgylchfyd yn glir a di-flewyn-ar-dafod. Sonnir yn arbennig am eneth saith oed, Mii-chan, a'r modd y gwelodd bopeth o'i chmpas yn cael ei ddinistrio. Mae'r stori yn agor ar ddechrau diwrnod hollol gyffredin, ac o fewn munudau mae yno ddinistr llwyr.

Gellid dadlau nad yw'n llyfr pleserus i blant ond ar y llaw arall, sut y gallwn gyflwyno hanes y drychineb mewn modd "pleserus"? Yn sicr, gall pob un ohonom addysgu ein hunain drwy ddarllen y llyfr, - a thrwy ei ddarllen atgoffa'n hunain o'r erchylltra, ac adnewyddu ein cred na ddylem adael i'r fath drychineb ddigwydd eto.

Dyma gyfrol hawdd i'w darllen o ran arddull, er nad o ran cynnwys! Rhaid canmol darluniau effeithiol yr awdur, Toshi Maruki, yn enwedig o wybod mai darluniau o'r hyn a welodd a'i llygaid ei hun ydynt. Aeth hi i fewn i Hiroshima o fewn dyddiau ar ôl i'r bom ddisgyn.

Diwedda'r llyfr gyda geiriau'r fam wrth ei merch, Mii-chann, (sy'n saith oed o ran corff a meddwl er 1945):

> "Nid damwain oedd ein dioddef ni. Fe all ddigwydd eto, os nad wyt ti'n ewyllsio fel arall."

MEINIR VITTLE.


---

BWYTY BYRTI / TAFFS' CAFF

RHAID YW LLONGYFARCH Diane Hughes a'i ffrindiau yng Nghyncoed am gasgliad diddorol ac amrywiol o hoff risetiau deugain o bobl adnabyddus. Mae'r llyfryn bach dwyieithog yma yn hynod ddeniadol ac am £1 yn anrheg bach Nadolig rhesymol dros ben.

Mynnwch eich copi, neu ddau, gan un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Kay Clement (Radur) | 842028 |
| Ceri Jones (Penarth) | 512412 |
| Sarah Barr (Rhiwbeina) | 626205 |
| Eleri Rogers (Trelai) | 593407 |
| Mair Davies (Penylan) | 492353 |
| Elaine Pye (Llanishen) | 762232 |
| Einir Williams (Yr Eglwys Newydd) | 612045 |
| Ann Williams (Pentwyn/Cyncoed) | 732359 |
| Gwenda Jones (Treganna) | 399659 |
| Sylvia Fenner (Creigiau/Pentyrch) | 890128 |
| Tegwen Evans (Llysfaen) | 754559 |
| Taflen (Heol Conwy) | 27530 |



DYMA OLWG SYDYN yn awr ar rai o'r cyfrolau sydd yn y siopau ar hyn o bryd.

Rhoddwyd croeso arbennig i'r ddwy gyfrol gyntaf yn y gyfres BOB DYDD GYDA IESU (Tŷ John Penry). Yn awr dyma'r drydedd - casgliad o fyfrdodau yn ymneuad â diwedd y flwyddyn, ar gyfer darllenwy ifainc.

Mae CRICEDWYR CYMRU (Gwasg Gomer) yn gyfrol swmpus o waith Howard Lloyd. Mae'n naturiol fod pwyslais arbennig ar hanes Morgannwg, ond mae lle i nifer o bynciau eraill hefyd, megis hynt y clybiau lleol, a hanes y gwragedd sy'n chwarae criced. Ceir yma, hefyd, gasgliad helaeth o luniau camera diddorol.

I'r plant lleiaf mae pedair cyfrol liwgar am eu harwr Cadwgan, i gyd-fynd a'r gyfres ar S4C. Y teitlau yw DIWRNOD CNEIFIO, Y BWGAN BRAIN, SIONED YN TISIAN ac yn olaf Y PEIRIANT GOLCHI. Elwyn Ioan a Tegwyn Jones yw'r awduron. Daw'r lluniau o'r gyfres deledu ac mae'r cyhoeddwyr, Y Lolfa, yn darparu llu o ddernyddiau eraill megis bathodynnau, posteri a chardiau, a'r llygoden annwyl yn amlwg ar bob un ohonynt.

Braf gweld hefyd, fod cyfres Angharad Tomos am Rwdlan y wrach yn mynd yn ei blaen. O'r blaen cawsom RALA RWDINS a CERIDWEN. Yn awr dyma Y DEWIN DWL a DIFFODD YR HAUL. Mae'r lluniau lliw-llawn yn hynod ddeniadol. Llwyddiant arall i'r Lolfa.

I oedolion, mae Gwasg Carreg Gwalch wedi ail-argraffu addasiad Dyfnallt ac Eleri Morgan o CHWE CHYMERIAD YN CHWILIO AM AWDUR gan y dramodydd o Sisili, Luigi Pirandello. Mae'r addasiad yn un effeithiol iawn - fe'i gwobrwywyd yn Eisteddfod Genedlethol Machynlleth ym 1981.

Yn ol a ni i'r maes chwarae yn awr, a chyfrol Joyce Davies DEWCH I FARCHOGAETH (Y Lolfa), un arall yn y gyfres gampus sydd eisoes wedi trafod pel-droed, tenis a snwcer. Rygbi a chreiced fydd y pynciau nesaf dan sylw. Mae yn y gyfrol hon lu o luniau a diagramau pwrpasol.


**URDD GOBAITH CYMRU**
**CANOLFAN CAERDYDD**
YN EISIAU
YSGRIFENNYDD/YSGRIFENYDDES
Rhan amser i weithio 9 awr yr wythnos.
Cysylltwch â Chaerdydd 36301

# LLYFRAU'R 'DOLIG . LLYFRAU'R 'DOLIG

Nofel fach ar gyfer plant yw DIWRNOD TAN GAMP? (Gwasg Gomer), yr addasiad diweddaraf yng nghyfres Corryn. Dilynwn hynt teulu wrth iddynt ymweld a glan y mor, ac er bod y pwyslais ar hiwmor mae yma ddigon o sylwgarwch, tynerwch hyd yn oed, i roi gwerth ychwanegol i'r gyfrol.

A dyma gyfrol sy'n cyfeirio'n benodol at y Nadolig, NADOLIG PAPA PANOFF (Gwasg Cambria). Yr hyn a gawn yma yw fersiwn Tolstoy o hen stori Ffrangeg am grydd sy'n cael profiad gwefreiddiol dros dymor y Nadolig. Mae lluniau lliw-llawn hyfryd i'w cael trwy'r gyfrol.

Ar gyfer dilynwyr Superted mae Hughes a'i Fab wedi darparu pump o gyfrolau newydd sbon. yn y llyfr mawr a ddarparwyd yn arbennig ar gyfer y Mudiad Ysgolion Meithrin ceir storiau gan Rosanne Reeves, ynghyd a phosau, gweithgareddau a llunaiu gwych. Hefyd cyhoeddwyd pedwar llyfr bach lle y ceir un stori i bob cyfrol. Y teitlau yw SUPERTED YNG NGWLAD YR IA, SUPERTED A'R SMYGLWYR ARFAU, SUPERTED A'R BELEN GRISIAL a SUPERTED A'R BYFFALO. Mae lluniau lliw-llawn o'r safon uchaf ar bob yn ail dudalen.

Yn awr at fy ffefryn i, Wil Cwac Cwac. Yn WIL CWAC CWAC, Y LLYFR MAWR (Hughes a'i Fab) ceir storiau gan Urien Wiliam, gemau, posau, gweithgareddau a thameidiau o wybodaeth. Ac yam hefyd mae'r lluniau swynol sydd yn gweud y gyfres deledu yn gymaint o glasur.

Yn olaf, cawn nofel i blant, YN ÔL I WERNYFED (Gwasg efengylaidd Cymru). Dyma ddilyniant i'r gyfrol boblogaidd Y LLEW A'R WRACH gan yr un awdur, C.S.Lewis. Gallwn fwynhau stori antur, a llawer mwy na hynny, wrth inni dddilyn hynt Rhodri, Meinir, Edwards a Luned.

PHILIP WYN JONES.


# Gwledd!

## • LLYFRAU NEWYDD CADWGAN!

gan Elwyn Ioan a Tegwyn Jones, i gyd-fynd â'r gyfres deledu:

**1. Diwrnod Cneifio** 75c **2. Y Bwgan Brain** 75c
**3. Sioned yn Tisian** 75c **4. Y Peiriant Golchi** 75c

CARDIAU NADOLIG CADWGAN:
1. Cerdyn o'r Llinad 13c 2. Sioned y Wiwer 13c
3. Gerent y Ci 13c 4. Mangel y Gath 13c

*Hefyd: Bathodynnau Ffrindiau Cadwgan, Posteri, Llyfrau Llofnodion a Nodiadau, Papur Sgrifennu, a'r 2 lyfr clawr caled.*

## • CANEUON GILMOR GRIFFITHS

**Hwyl ar y Gân** / 7 o ganeuon i blant £2.45
**Breuddwydion** / Unawd 85c
**Y Pren Afalau** / Unawd 85c
**Gilmora** / 15 o alawon cerdd dant £2.95

## • NOFEL DDITECTIF NEWYDD

**Ewyllys i Ladd** / Heini Gruffudd £2.45

## • ATGOFION

**Gwŷr y Ffedog Wen** / *Portread o Weithwyr Tun Cwm Tawe*
Harri Samuel £2.25

## • ANRHEGION AMSEROL!

**DIGWYDDIADUR 1985** £1.25
**Llyfr Sêr Madam Sera** £2.95

## • EIN CYFRESI POBLOGAIDD I BLANT

*Cyfres Rwdlan* / Angharad Tomos:
**4. Y Dewin Dwl** 95c **5. Diffodd yr Haul** 95c
*Cyfres Dewch i Chwarae:*
**4. Marchogaeth** / Joyce Davies £1.85
*Cyfres Cailo* / Dafydd Parri: **Cailo-4** £1.75

## • ...A MWY:

**Cwis a Phôs** / Hafina Clwyd £2.45
**Clap a Chân i Dduw** £4.50
**Caneuon Ryan** £2.50

**Y Lolfa** Cyf.

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE ffôn 304





# RECORDIAU NADOLIG SAIN

**Mae rhywbeth yn yr hosan i bawb!**

Record newydd TREBOR EDWARDS! "GWELAF DY WÊN" *Sain 1313D/C913*
Ei record gyntaf ers dwy flynedd
ROSALIND A MYRDDIN "COFIO O HYD" *Sain 1300M/C900N*
Record orau'r ddeuawd newydd
"GANWYD IESU" *Sain 1314H/C914G*
Casgliad arbennig o garolau hen a newydd
PLETHYN "CANEUON GWERIN I BLANT" *Sain 1309M/C909N*
Record arbennig ar gyfer plant o bob oed
ALED JONES "AVE MARIA" *Sain 1304D/C904*
Ail record y bachgen soprano o Fôn a gafodd ganmoliaeth uchel gan feirniaid dylanwadol y byd cerdd
"CAROLAU YSGOL SYR HUGH OWEN" *Sain 1310D/C910*
Carolau gan blant dawnus Caernarfon
CÔR MEIBION PORTH TYWYN "CANEUON BYWYD" *Sain 1295D/C895*
Record hir gyntaf y côr o Ddyfed. Nifer o ganeuon newydd i gôr meibion
HUW EDWARD JONES "CLIR YW'R LLEISIAU" *Sain 1317M/C917N*
Record hir gynta'r canwr ifanc a wnaeth gymaint o argraff ar lwyfan, radio a theledu
"GOREUON ERYRI" *Sain 1315D/C915*
Enillwyr Eryri yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbed eleni
TRIAWD MENLLI "FFRINDIAU" *Sain 1319D/C919*
Wedi llwyddiant eu dwy record fach, dyma'u casgliad hir cyntaf
EINIR WYN DAVIES "PE CAET DDEWIS BYW DRACHEFN" *Sain 111E*
Pum cân gan y ferch hudolus o Ffestiniog

Casetiau Llafar
HANESION TWM SIÔN CATI gan T. Llew Jones TRF C501P
BARDDONIAETH PLANT. yn seiliedig ar y gyfrol 'Drws Dychymyg' TRF C502P
*Newydd
Dau gasét ar gyfer Cyfrifiadur "CWIS AR WYNEDD" ALL 101 ar gyfer "Spectrum" a "BBC" a "MWYDOD" ALL 102 ar gyfer "Dragon" (6 gêm ar un tâp)

MAFFIA MR HUWS "DAN NI'M YN RHAN O'TH GÊM FACH DI" *Sain 1307A/C907A*
Ail record hir, hir-ddisgwyliedig ein grŵp roc mwyaf poblogaidd
Sengl Y BRODYR *Sain 110S £1.35*
"TEILWNG YW'R OEN" *Sain 1321M/C921N*
Cerddoriaeth "Y Meseia" mewn gwisg ifanc, gyffrous
GERAINT GRIFFITHS "MADRAS" *Sain 1316M/C916N*
Record unigol gyntaf Geraint, yn cynnwys "Y Cwm"
"BAROD AM ROC" *Sain 1311H/C911G*
Casgliad o glasuron y byd roc ers dechrau'r 70au
4 YN Y BAR "BYTH ADRA" *Sain 1308M/C908N*
Alawon a chaneuon yn cynnwys y gân "Elen Fwyn"
BWCHADANAS "CARIAD CYWIR" *Sain 1306M/C906N*
Caneuon gwreiddiol a thraddodiadol gan y grŵp poblogaidd o Fangor



# TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD

# CICIO YN Y MWD

MIS GO WLYB fu tachwedd eleni - rwy'n siwr nad oe s angen eich atgoffa o hynny. Glaw bob bore a nos, glaw pob pnawn a hwyr, glaw pob dydd gwaith a glaw hefyd pob dydd Sadwrn a hynny yn naturiol yn effeithio ar y gemau peldroed yn ddifeth. Yn wir, ers rhifyn diwethaf Y Dinesydd, dim ond tair gem yn unig a chwaraewyd gan y naill dim a'r llall.

O'r herwydd ychydig yn garpiog fu'r chwarae a'r canlyniadau yn ystod y mis - beth sydd i'w ddisgwyl ynte a phythefnos yn mynd rhwng y gemau. Mae'n ddigon o broblem cadw diddordeb rhai o'r chwaraewyr hynaf o un hanner y gem i'r llall heb son am dros bedair diwrnod ar ddeg.

Gwaeth na hynny, os nad ydi Dewi yn y gôl yn cael ymafer cicio pêl o'i ddwylo am gyfnod maith, mae hi fel ail-gydio yn y gorchwyn wedi tymor yr haf arno - cyrraedd mymryn tu hwnt i'w linell gôl ei hun y tro cyntaf, yr ail yn mynd rhyw ddeg llath ymhellach, a'r hanner dwsin nesaf yn mynd dros y ffin ar yr ochr ddeuheol ac ar yr ochr chwith am yn ail. Mae gobaith wedi hynny y bydd y bel yn cyrraedd i ben neu droed aelod o'i dim ei hun.

Ond beth amdani ar y cae - yr ystadegau i ddechrau. Ar Sadwrn Tachwedd 3 gem yn erbyn Rhymni ar dir y gwrthwynebwyr. Cafwyd dechrau digon pethma, ac ymosodwyd yn ddibaid am ran helaeth o'r hanner cyntaf heb unrhywbeth i ddangos am hynny. Ond yn sydyn, o fewn munudau wedi dechrau'r ail hanner aeth Rhymni ar y blaen, ac ymhen sbel wedyn cawsant ail gôl o'r smotyn gwyn wedi i Huws yr hynafgwr brotestio ei ddiniweidrwydd megis babi blwydd, ond y cyfan yn ddi-werth fel y disgwyl.

Hwb oedd hyn yn wir i Glwb Cymric ddeffro a mentro ac ymladd a sgorio yn y diwedd - pedair yn wir erbyn y chwiban olaf. Gôl gelfydd gan Tony Smith a thair gan Rhodri yn sicrhau buddugoliaeth dda yn y diwedd.

Ar Dachwedd 17, gem yn erbyn St.Josephs, a gêm i'w anghofio yn wir oherwydd roeddynt yn dim celfydd ac yn llawn haeddu'r fuddugoliaeth o dwy gôl i un ar y diwrnod. Roedd y Cymric yn llathen yn rhy hwyr i'r bêl bob gafael a phan gafwyd cyfle i ddangos ychydig o ddawn, roedd y traed neu'r pen neu'r ddau yn gwrthod ymateb. Rhodri sgoriodd yr unig gôl.

Ail adrodd hanes gem gyntaf mis Tachwedd oedd y gêm ar Sadwrn cyntaf Rhagfyr, a'r gwrthwynebwyr yr un, sef Rhymni. Roedd mesur y tim yn weddol siwr y tro yma, ac aethpwyd ar y blaen o dair gôl i ddim erbyn munudau cyntaf yr ail hanner. Ond yn sydyn daeth cryn boendod i'r Cymric ac ar amrantiad roedd y gêm yn fywiog a chlos a'r Rhymni wedi tynnu dwy gôl yn ôl ac yn pwyso am y drydedd.


Fel pe bai ail-wynt wedi dod o du'r Afon Taf, dyma afael yn y gêm yn sgrepan ei gwddw a Tony Smith yn dawnsio i lawr yr asgell dde fel tylwyth teg gan osod y bel dair gwaith wrth draed ei gyd-aelodau i sicrhau sgôr terfynol o chwech gôl i ddwy i'r Cymric. Y sgorwyr oedd Gareth "Sêr", "Emyr (beth oedd o yn ei wneud yn hanner y gwrth-wynebwyr?), Dewi "Chips", Eynon (un arall hefo'i ben) a Rhodri (2). Deuddeg pwynt felly allan o unarddeg o gemau ar ddechrau mis Rhagfyr.

Yr un nifer o bwyntiau sydd gan yr ail dim, a chymysg ydi eu canlyniadau hwythau wedi bod hefyd yn ystod Tachwedd. Ennill yn erbyn BTD o ddwy gôl i un, Rhys a Martin yn sgorio. Cyfartal yn erbyn Grange Boys Club, un yr un, Rich Parsons yn rhwydo.

Yna ar Sadwrn cyntaf Rhagfyr, colli o dair gôl i un yn erbyn Wells Utd., Rich yn sgorio unwaith yn rhagor. Teg dweud fod y tim heb eu capten a Cen Cartŵn yn y gêm yma, a gorfu i Bags adael y maes wedi rhedeg allan o wynt ar yr hanner. Anafwyd un arall o'r bechgyn, ac ar ddiwedd y gêm, deg dyn yn unig oedd gan yr Aelwyd.

Dymuniadau gorau i Huw Bevan ar ei daith o amgylch y byd yn ystod y flwyddyn nesaf yma - yn yr India y mae o ar hyn o bryd - bydd rhaid iddo ymladd am ei le yn ôl yn y tim wedi dychwelyd. Hefyd, mae'n ffaith bod Emyr wedi sgorio un gol yn fwy na Cerith eleni.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367




HYSBYS: Mae 'na deulu Cymraeg yng Nghaerdydd sy'n awyddus i warchod a gofalu am blentyn o dan oed ysgol yn ystod y dydd. Am fanylion pellach cysylltwch â Chaerdydd 568654.


# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

AIRIES: Mi fydd teithio'n dueddol o fynd yn ffratach. Cyfnod da i weithio yn y gymdeithas, i syrthio mewn cariad, neu i wneud penderfyniadau gyrfaol pwysig.
TAURUS: Mis llewyrchus iawn yn y gwaith - ond peidiwch gorwario. Mae hi'n argoeli'n dda ar gyfer teithio tramor.
GEMINI: Cadwch ar flaenau'ch traed - neu fe fydd rhywun yn siwr o'ch baglu. Amser ardderchog i fentrau ariannol. Bydd newid amgylchfyd dros y Nadolig yn gwneud byd o les i chi.
CANCER: Cyfnod da i bartneriaethau o bob math - ond ceisiwch osgoi problemau pobl eraill. Mwy o arian dros y Nadolig - ond peidiwch a'i wario'n ffol.
LEO: Mae tipyn o densiwn o'ch cwmpas - a chymerwch ofal o'ch iechyd. Ceisiwch osgoi cweryla â phobl. Cyfnod ardderchog i serch a chymdeithasu o bob math.
VIRGO: Peidiwch gamblo'r mis yma da chi. Iechyd a chyflwr gwaith yn ardderchog. Byddwch yn pwyso dipyn ar eich cyfeillion a, gyngor a chwmni.
LIBRA: Mis rhamantus iawn - a chymdeithasol tu hwnt. Peidiwch â gor-ddathlu. Cewch newyddion pleserus annisgwyl.
SCORPIO: Gochelwch rhag bod yn ddiofal. Mae elfen gref o oedi ym mhob peth - amynedd piau hi. Gwnewch yn siwr fod eich cyfrifoldebau ariannol mewn trefn.
SAGITTARIUS: Cyfnod prysur iawn, ond gofalwch peidio â gorwario. Cewch glywed newyddion da, ac fe fydd digwyddiad annisgwyl dros y Nadolig yn eich synnu.
CAPRICORN:; Cyfnod ardderchog i'r celfyddydau, ond mae rhywun yn ceisio'ch camarwain - byddwch ar eich gwyliadwriaeth. Cyfnod ariannol llewyrchus, a thaith dros yr Wyl efallai.
AQUARIUS: Bydd gennych ddigonedd o ynni - ond peidiwch a'i wasgaru i gyd ar ofynion pobl eraill - cadwch beth yn ol i chi'ch hunain. Cyfnod hynod o gymdeithasol.
PISCES: Amser gwych i gariadon a'r rhai sy'n hoffi partion. Amser i newid gofwydd yn y gwaith efallai - chwiliwch am y cyfle.
TAPLAS

# CROESAIR Y DINESYDD 48
## gan Ap Lewsyn






MAE SAITH CAROL Cymraeg ynghudd yng nghroesair Rhagfyr, naill ai geiriau cyntaf y garol neu enw'r don. Cliwiau arferol sydd i weddill y croesair, ond y gair "carol" yn unig ar gyfer y saith.

AR DRAWS:
1. Gweler 5 i lawr.
8. Ann Griffiths a chysylltiad ac adroddiad. (2)
9. Carol. Enw'r don a'r bachgen a anwyd ar ddydd Nadolig. (4)
10. Gair ar derfyn dydd (3,2)
11. a 10 ar draws (y gair cyntaf). Carol. (5,3)
12. Cymharer a chod post Caerdydd. (2)
14. Yr hyn a wneir wrth ddweud gair. (4)
16. Gweler 22 i lawr.
18. Y mae'n aberthu (6)
19. Gweler 15 i lawr.
20. Carol. (Enw'r don) (9,4)
21. Sut y byddem yn gobeithio gwneud 16 i lawr. (2,3)
23. Diddymaf yr ail a hanner y nawfed i'w cywiro. (6)
26. Actiodd heb lefaru. (7)
27. Fel mae'r gof yn trwsio. (4)
29. Ai hanner cyn gryfed a mate yw hwn? (2)
30. Trigolion cyntaf y trefi. (5)
31. Tua chan datryswr yn colli cysylltiad ac yn grwgnach o'r herwydd. (5)
32. Y brenin diwethaf. (4)
33. Ychydig o'r sisial a glywir. (2)
34. Ble gwelir y gwario a'r derbyn. (2,1,8)

I LAWR:
1. Rhoi i gadw'n saff. (6)
2. Lle mae Arthur yn cysgu. (4)
3. Yr hyn a wnewch a thatws a thiced a thy. (4)
4. Carol. (3,8,4)
5. Ac 1 ar draws. Carol. (1,5,3,8)
6. Swydd yn perthyn i'r Dinesydd sy'n arswydus os nad yn barchus. (11)
7. Gweler 22 i lawr.
13. Perthynas (go bell). (3)
15. A 19 ar draws a 24 i lawr. Carol. (4,2,5,5,6)
16. Byddem yn brwydro. (7)
17. Dau wr gradd a dim ond punt rhyngddynt idd ei theimlo'n dyner. (7)
22. A 16 ar draws a 7 i lawr. Carol. (4,2,1,6,5,)
23. Cer i gymryd dy ffisig. (3)
24. Gweler 15 i lawr.
25. Mwy. (15)
28. Blaenwyr, pob un rasgal ohonynt, yn glanhau. (4)
29. Seiat ddigalon a thafodiaethol, fel petai. (4)

CYSTADLEUAETH RHIF 47. (Tachwedd) Bu cythrel y wasg wrth ei driciau y mis hwn eto. Rhoddodd rhif anghywir i'r cliw olaf ar draws, (28 yn lle 29), a gadawodd y gwir gliw allan yn gyfangwbl. Dryswch i'r datryswyr cyson yn siwr. Ymddiheuriadau eto! Bydd angen cadw llygad clos ar y diawl bach i'r dyfodol!

Er gwaethaf yr amryfysedd hwn, derbyniwyd pum ymgais i ddatrys y croesair gan ddyfalu beth oedd i lenwi'r bylchau yn niffyg y cliw. Daethant oddiwrth: B.H. Cyncoed; A.R.R. Abertawe; Julia Lloyd, Glan-y-Llyn; B.T. Cyncoed; a D.Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd. Ond barna'r Panel Golygyddol, er yn cydnabod medr y pump, na fyddai yn deg i roi'r wobr y tro hwn, gan ei bod yn bosib fod yna amryw o ddatryswyr wedi eu hatal rhag cystadlu gan y diffyg yn y cliw.

Fodd bynnag, dyma gynnig tocyn llyfr Cymraeg am £5 eto am groesair Rhif 48. Enw neu ffugenw ar ymyl y croesair a'i ddanfon at Ap Lewsyn, 13,Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn 15 Ionawr 1985.

Wele ddatrysiad Rhif 47 fel y'i fwriadwyd:
Ar Draws: 1.Datoda; 4.Adolygydd; 10.Tafarnwyr; 11.Staen; 12.Achlysur; 13.Afiechyd; 14.Aerwy; 15.Ogfaenen; 18.Ysgatfydd; 20.Lodes; 23.Lantern; 25.Adnodau; 26.Meddal; 27.Trai a llanw; 28.Dilewyrch; 29.Etholwr.
I Lawr: 1.Datganaf; 2.Tafoler; 3.Darostynga; 5.Darganfyddiadau; 6.Lysti; 7.Gwarchae; 8.Ddynodi; 9.Gwarchodfa Natur; 16. Erlyniaeth; 17. Ysgubwyr; 19.Seneddol; 21.Didraul; 22.Clymid; 24.Edliw.

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

NOSON FAWR: Roedd Tachwedd 30 yn noson fawr i aelodau cylch cinio'r Barri a gyfarfu yng ngwesty'r Mount Sorrel i ddathlu Noson y Gwragedd. Dafydd Jones oedd y llywydd a chafwyd cyfraniad gwych gan y wraig wâdd, Menna Gwyn.

## CYDYMDEIMLAD

PROFEDIGAETH: Cydymdeimlwn yn ddwys â Diane Hughes a'i theulu yn ei phrofedigaeth lem o golli'i mam a fu'n ddiwyd iawn yn ei helpu efo Llyfr Coginio Byrti Bws yn ddiweddar. Dymunwn bob bendith i'r teulu i ddygymod â'r golled.

COLLED: Cydymdeimlwn â Howard George, blaenor yn Heol y Crwys, a gafodd brofedigaeth drom o golli ei briod yn ddiweddar.

MARW: Yn frawychus o sydyn, bu farw Miss Nellie Devonald, Park Road, Y Barri. Er iddi fyw yn Y Barri ers 1939, aeth yn ôl i'w chynefin yng Nghilgerran yn aml. Ac yno bu farw ar ddydd Sul, Rhagfyr 2, tra'n ymweld a'i theulu. Roedd Miss Devonald yn 83 mlwydd oed ond yn ifanc iawn ei hysbryd ac yn un o gymeriadau mwyaf hoffus y gymdeithas Gymraeg yn Y Barri.

## LLONGYFARCH

GENI: Llongyfarchiadau i Siân a Howard Osborne, Gwaelod y Garth ar enedigaeth Carys, chwaer fach i Mari Elin. Deallwn fod y babi newydd yn dod ymlaen yn dda a bod Mari Elin yn debyg o ennill y gystadleuaeth siarad cyhoeddus pan ddaw'r Eisteddfod i Gaerdydd nesaf.

GENI: Llongyfarchiadau i Christine a Gareth Wallis Evans ar enedigaeth Catrin Angharad ar ddydd Sul Rhagfyr 2.

PRIODAS DDA: Dymunwn hir oes a llawenydd i Dewi Alban Roberts a'i wraig, Barbara yn eu cartref newydd yn Llandaf. Un o Lanbrynmair yw Barbara a phriodwyd y ddau yn yr hen gapel yno ar Fedi 15. Hoffem, hefyd ddymuno'n dda i fam Dewi, Mrs.Glenys Roberts, sy'n awr yn gwella yn ei chartref, Gwynant, Cefn Coed Road, ar ôl llawdriniaeth yn ystod yr haf.

PRIODI: Priodas dda hefyd i Aled Vaughan, yn awr o Chwilog, a Nerys Wheldon. Dymuniadau gorau i'r ddau.

CYMORTH: Da iawn chi Rhys a Non Morlan a Branwen Evans ar godi £31.93 tuag at Gronfa Ethiopia a hynny trwy werthu hen degannau a llyfrau yn Heol Fairleigh, Pontcanna.

SWYDD: Dymuniadau da i Mrs. Mefus Evans, Creigiau, yn ei swydd fel Trysorydd Mudiad Cristnogol Merched Ifanc.

## CROESO

CROESO: Croeso i Mr.a Mrs. Gwenallt Harding Rees i'w cartref newydd yn Radur ac i'r Tabernacl. Mae Mr.Gwenallt Rees newydd ddechrau ar ei waith fel Arolygydd Ysgolion - cyn hyn fe fu'n darlithio yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

CROESO GARTREF: Chwithdod mawr oedd clywed am salwch Eirlys Jones, gwraig Robin a mam Iona a Lisa. Cafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Llandochau. Llawenydd i bawb ohonom oedd clywed bod Eirlys yn ôl gartre ar ôl llawdriniaeth llwyddiannus a'i bod yn atgyfnerthu o ddydd. Croeso mawr adre Eirlys.

## LLONGYFARCH

ANNERCH: Llongyfarchiadau i'r Barnwr Dewi Watkin Powell ar ei lywyddiaeth o Gymanfa Ganu Llundain yn ddiweddar, a hefyd ar ei wahoddiad i annerch yng nghynhadledd Cyngor Eglwysi Rhyddion Lloegr a Chymru yn Leeds, ac yng nghynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru yng Nghlydach ym 1985.

CYHOEDDUS: Llongyfarchiadau i Huw T.Davies ar ei benodi'n Swyddog Cyhoeddusrwydd a Gwybodaeth dros Gymru i Sefydliad Curiad y Galon.

Ar hyn o bryd mae'n gweithio yn Adran Ysgolion y BBC. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd yn y flwyddyn newydd.

CANMOL CWNSTABL: Cyhoeddwyd yn ddiweddar bod Robert Roberts sy bellach yn aelod o Heddlu De Cymru, wedi derbyn cymeradwyaeth swyddogol gan Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitan am wrhydri mewn amgylchiadau peryglus. Yn gynharach eleni, pan oedd yn gweithio yn Llundain, fe'i galwyd ar frys i floc o fflatiau lle roedd dyn wedi anafu ei gyn-wraig a'i gymydog ac ar fin ymosod ar ei blentyn. Llwyddodd Robert i'w rwystro, achubwyd y bychan ac aed a'r dyn i'r ddalfa. Llongyfarchiadau iddo. Fel y nodwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd, mae Robert a'i wraig Siriol yn awr yn byw yn yr Eglwys Newydd.

AR I FYNY: Llongyfarchiadau i Elin Prydderch ar ei dyrchafiad o gael ei phenodi'n Bennaeth Adran Fathamateg Ysgol Gyfun Rhydfelen.

## CYFARCHION

DIOLCH: Dymuna Evan Edwards, Dolcoed, Llanilar, ddiolch i bawb o gylch Caerdydd a fu yn ymweld ag ef ac am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty'r Brifysgol.

TORRI TROED: Bydd un o bedalau piano Ysgol Glantaf yn dawel am gyfnod oherwydd bod yr athrawes gerdd, Judith James, wedi torri ei throed wrth neidio a pharasiwt dros faes awyr ger Henffordd. Roedd y naid dros achos da - Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd.

BRYSIWCH WELLA: Mae llawer o gyfeillion Hywel Griffiths yn meddwl amdano ac yn dymuno adferiad llwyr a buan iddo ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol yn ddiweddar.

I'R SÊT FAWR: Mewn oedfa Gymun ar nos Sul Rhagfyr 9 croesawodd gweinidog capel Minny St., Y Parch.Eifion Powell bump o ddiaconiaid newydd. Y pump yw Gwyn Evans, (Lady Mary Road); Dafydd Jones, (Prifathro Rhydfelen); Lynn Jones, (Llandaf); John Rees, (athro hanes Glantaf), a Leslie Thomas, (Manor Way). Dymunwn yn dda iddynt yn eu tymor o wyth mlynedd yn y sêt fawr.


**Ysgrifenyddes/ Ysgrifennydd**

Y mae arnom angen ysgrifenyddes/ ysgrifennydd i weithio i'n **Is-bennaeth Rhaglenni** sy'n gyfrifol am raglenni adloniant, cerddoriaeth, comediau sefyllfa a rhaglenni plant yn ein canolfan newydd yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd.

Yn ddelfrydol, dylai'r ymgeiswyr am y swydd fedru llawfer Saesneg a Chymraeg, a gallu teipio yn gywir a chyflym.

Mae meddu ar bersonoliaeth ddymunol a hiwmor iach yn angenrheidiol ar gyfer y swydd hon, ynghyd a'r gallu i redeg swyddfa brysur a'i holl systemau.

Cyflog, yn cynnwys atodiadau, £6,790 y flwyddyn (yn cael ei adolygu).

Dylai ymgeiswyr, mabneu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DI/405 at: Rheolwr Staffio, HTV Cyf., Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL

HTV

FP.1138